Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

2011/12

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Croeso gan y Cadeirydd

Croeso i Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer 2011/12. Pleser oedd cael fy mhenodi yn Gadeirydd y Bwrdd Iechyd ym mis Ebrill 2011 gan y Gweinidog dros Iechyd, ac rwy'n falch ac yn freintiedig o fod yn rhan o'r Bwrdd Iechyd mwyaf yng Nghymru, yn gweithio i wella iechyd a gwasanaethau iechyd i bobl Gogledd Cymru. Fel un sydd wedi cael fy ngeni a'm magu yng Ngogledd Cymru, ac sydd wedi byw mewn gwahanol rannau o'r ardal, gwn beth yw gwerth datblygu gwybodaeth leol a chadarn am anghenion a blaenoriaethau'r boblogaeth amrywiol rydym yn ei gwasanaethu.

Eleni, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r weledigaeth pum mlynedd newydd ar gyfer y GIG yng Nghymru. Mae "Law yn Llaw at Iechyd" yn canolbwyntio ar gynaladwyedd a gweithredu. Mae ein nod gyfunol ar ddarparu a gwneud gwelliannau sylweddol i drawsnewid gwasanaethau er lles pobl leol. Mewn rhai ardaloedd, mae arfer da, ond mewn rhai eraill, gallem wneud yn well. Mae pobl Gogledd Cymru yn haeddu gwell na hyn, felly rydym wedi bod yn edrych ar nifer o'n gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei arwain gan feddygon a staff clinigol sydd wedi bod yn archwilio'r ffeithiau ac wedi cynnig syniadau fydd yn gwella ansawdd a diogelwch ein gwasanaethau yn ogystal â rheoli costau.

Mae'r pwysau ar gyllid y sector cyhoeddus yn ffaith wybyddus ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed i wneud i bob ceiniog gyfri. Rydym wedi datblygu systemau sy'n cynnwys mwy o farn glinigol mewn penderfyniadau ariannol a chredaf y bydd hyn yn sicrhau gwell canlyniadau i gleifion yn y tymor hir.

Wrth wraidd popeth a wnawn, mae ymroddiad ac ymrwymiad staff, sydd un ai'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd neu'n cael eu contractio mewn gofal cychwynnol.

Hoffwn gofnodi fy niolch i bawb sydd wedi gweithio'n ddiflino i ddod â gwerth a buddion i'r bobl y maent wedi gofalu amdanynt eleni. Fe'i gwerthfawrogir yn fawr.



Yr Athro Merfyn Jones CBE
Cadeirydd

Rhagair y Prif Weithredwr

Daethom i'r flwyddyn hon yn benderfynol o ddod â phobl a gwasanaethau ynghyd o gyn sefydliadau'r gorffennol. Mae ein nod o wella a sicrhau fod safonau'r un fath ble bynnag rydych yn byw neu'n gweithio wedi cael ei wireddu mewn rhai ardaloedd. Mae mwy i'w wneud.

Nid yw gwneud hyn mewn hinsawdd ariannol na welwyd mo'i debyg wedi bod yn hawdd o bell ffordd. Mae wedi herio pob gweithiwr proffesiynol i wneud yn siŵr bod yr adnodd sydd gennym, a roddwyd gan drethdalwyr, yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau bosibl. Mae newid meddylfryd staff a'r cyhoedd fod degawd o gynnydd mewn buddsoddiad wedi dod i ben, yn parhau.

Mae adroddiad eleni'n dangos cynnydd – lleihau cyfraddau haint mewn ysbytai, gwella canlyniadau i bobl sydd wedi cael strôc, ac yn bwysig, cyflwyno mwy o ofal yn y cartref dan arweiniad meddygon teulu gyda staff iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol.

Rwy'n arbennig o falch o feddygon teulu a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill sy'n arwain gwelliannau mewn gwasanaethau mewn cymunedau ledled Gogledd Cymru. Gelwir y rhain yn Ardaloedd Lleol. Maent yn atgyfnerthu pwysigrwydd practis cyffredinol fel cydlynydd gofal unigol gan gadw'n driw at werthoedd y GIG pan gafodd ei ffurfio. Rydym yn cymeradwyo safon y gwaith maent yn ei wneud.

Mae'r pwyslais ar godi safonau drwy adolygu tystiolaeth, datblygiadau mewn meddygaeth a'n gwaith drwy 1000 o Fywydau a Mwy yn dechrau dangos manteision i ansawdd bywyd yr unigolyn. Mae mwy i'w wneud. Mae arferion yn parhau i amrywio, yn cynnwys mynediad at ofal pan fo'i angen ac o'r safon ddisgwyliedig.

Wrth i ni dyfu'n hŷn a byw'n hwy, sy'n beth da, mae ein hanghenion iechyd yn newid. Rydym yn cynllunio ar gyfer hyn ac mae arnom eisiau gwneud yn siwr fod pob unigolyn, waeth faint fo'i oed, yn cael ei drin â'r un urddas a pharch y mae pob un yn ei haeddu. Mae straeon cleifion wedi bod yn ffordd rymus o'n hatgoffa am hyn. Pan fo gofal wedi bod yn eithriadol, rydym yn ei ddathlu. Pan fo gofal wedi bod yn annerbyniol, rydym yn ymdrechu i gael gwared arno. Mae gan bob un ohonom ddyletswydd i wneud pethau'n iawn ac mae ein gwaith eleni yn dangos y gallwn newid arferion. Mae mwy i'w wneud.

Gan gadw'r gorau tan y diwedd, rhaid sôn am gyflawniadau unigolion neu dimau fel y dangosir yn yr adran ar Gyflawniadau a Gwobrau. Maent yn rhoi darlun o safon yr unigolion rwy'n falch o gael gweithio gyda nhw. Rydym yn anghofio'n aml fod rhinweddau yn y GIG, a rhaid eu cydnabod hefyd.

Yn olaf, rwy'n falch iawn gyda phenodiad ein Cadeirydd, yr Athro Merfyn Jones, CBE. Mae wedi dod â chryfder gwirioneddol i'r sefydliad ac mae'n rhoi'r arweiniad i'n tywys drwy'r blynyddoedd nesaf. Mae ei gefndir academaidd a'i ddiddordeb brwd mewn ymchwil a datblygiad wedi cael ei groesawu gan glinigwyr a'n partneriaid. Rwy'n edrych ymlaen at gael gweithio gyda'r Cadeirydd a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol ar yr hyn sy'n ddyletswydd gyhoeddus gwerth chweil.

Mary Burrows MBE
Prif Weithredwr

Cynnwys

Ynglŷn â'r Bwrdd Iechyd 4
Cyflawniadau a Gwobrau 6
Ei wneud yn ddiogel 8
- Ansawdd a Diogelwch 8
- Cadw pobl yn ddiogel 10
- Cadw gwybodaeth yn ddiogel 10
- Bod yn Barod am Achos Brys 12

Gwneud iddo weithio 13
- Ein Gweithlu 13
- Gofalu am ein staff 14
- Ymgysylltu a chyfathrebu â staff 15
- Buddsoddi ar gyfer y dyfodol 16

Gwneud iddo ddigwydd 18
- Adolygiad Gweithredu ac Ariannol 18
- Ein hymrwymiadau amgylcheddol a chymdeithasol 21
- Gofal Cychwynnol 22
- Adolygiadau gwasanaeth ac ymgysylltiad cyhoeddus 24
- Gweithio gyda'n partneriaid 24
- Datblygiad Sefydliadol 25

Ei wneud yn well 26
- Gwella profiad defnyddwyr y gwasanaeth 26
- Moderneiddio a Gwella Gwasanaeth 27
- Ymateb i bryderon 28
- Yr Iaith Gymraeg 29
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol 30
- Ymchwil a dysgu 30
- Monitro a Safonau Gofal Iechyd 31
- Iechyd Cyhoeddus 31

Ei wneud yn gadarn 34
- Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 34
- Datganiad Llywodraethu 34
- Rheoli Risg 35
- Ein Bwrdd 35
- Datganiadau Diddordeb Cyfarwyddwyr ... 38
- Prif ddatganiadau ariannol a nodiadau 39
- Adroddiad Tâl 44
- Adroddiad yr Archwilwyr 49

Ynglŷn â'r Bwrdd Iechyd

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 1 Hydref 2009 fel rhan o raglen ddiwygio Cymru'n Un Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y GIG yng Nghymru.

Ni yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, ac rydym yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymuned, ysbyty ac iechyd meddwl, yn ogystal â goruchwylio gwasanaethau gofal iechyd cychwynnol i boblogaeth o tua 676,000 yng Ngogledd Cymru, a rhai gwasanaethau i drigolion Gogledd Powys a rhannau o Sir Gaer a Sir Amwythig.

Darperir ein gwasanaethau o dri ysbyty llym (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ger y Rhyl ac Ysbyty Maelor Wrecsam), ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymuned, canolfannau iechyd, clinigau, canolfannau timau iechyd cymuned ac unedau iechyd meddwl.

Rydym hefyd yn cydlynu gwaith 191 practis meddyg teulu a'r gwasanaethau GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr ledled yr ardal.

Rydym yn sefydliad sy'n cael ei arwain yn glinigol. Rheolir ein gwasanaethau drwy 11 Grŵp Rhaglen Glinigol (GRhG) sy'n dod â disgyblaethau clinigol cysylltiedig ynghyd. Mae pob GRhG yn cael ei arwain gan Bennaeth Staff, sydd un ai'n Feddyg Ymgynghorol neu'n weithiwr proffesiynol iechyd uwch. Mae'r Grwpiau Rhaglen Glinigol yn gyfrifol am reoli eu gwasanaethau a'u perfformiad eu hunain o fewn strwythur rheoli datganoledig. Maent yn cael eu cynorthwyo gan yr adrannau cefnogaeth gorfforaethol fel y dangosir yn y diagram drosodd.



Mae'r Penaethiaid Staff, ynghyd â'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, yn ffurfio Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n arwain rheolaeth weithredol y sefydliad. Maent yn atebol yn y pen draw i Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd ei hun yn cynnwys y Cadeirydd, Aelodau Annibynnol a'r Cyfarwyddwyr, ac mae'n gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad. Drwy ei strwythur pwyllgorau, mae'r Bwrdd yn sicrhau ein bod yn cadw at safonau llywodraethu da ac yn cyflawni ein targedau perfformiad.

Mae ein cyfeiriad strategol cyffredinol yn cael ei fynegi mewn pum thema allweddol, cydgysylltiedig: Ei wneud yn ddiogel, ei wneud yn well, ei wneud yn gadarn, gwneud iddo weithio, gwneud iddo ddigwydd.

Gyda'i gilydd, mae'r themâu hyn yn sicrhau fod diogelwch yn greiddiol i bopeth a wnawn, ein bod yn gweithio mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu'r perfformiad a'r safonau sy'n ddisgwyliedig gennym, ein bod yn gweithio gyda'n partneriaid i wneud y mwyaf o'r hyn rydym yn ei ddarparu, ein bod yn ymdrechu i wella'r hyn a wnawn yn barhaus, a'n bod yn gweithio i safonau uchel o gywirdeb a phroffesiynoldeb bob amser.

Cyflawniadau a Gwobrau

Yn ystod y flwyddyn, cafodd ein staff a'n hadrannau gydnabyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol am eu harloesedd ac ansawdd eu gwasanaethau.

Cafodd Tîm Clinig Cof (llun isod) o uned Bryn Hesketh, Bae Colwyn Wobr Sefydliad Nyrsio'r Frenhines am eu prosiect arloesol "Cefnogi Perthnasoedd mewn Dementia", sy'n helpu cyplau i ymdopi pan fydd un ohonynt yn cael diagnosis newydd o ddementia.

Enwyd Mr Philip Banfield, Obstetregydd a Gynaecolegydd Ymgynghorol yn Ysbyty Glan Clwyd (isod) yn Athro'r Flwyddyn gan BMA Cymru / Grŵp Dysgu BMJ.

Roedd y Podiatrydd Arbenigol, Annette Hibbert yn ail yn y Gwobrau Hybu Gofal Iechyd cenedlaethol am waith i hyrwyddo gwasanaethau podiatreg mewn gofal cychwynnol.

Enillodd y gwasanaethau llinell gymorth rydym yn eu cynnal a'u rhedeg (Llinell Gymorth Iechyd Meddwl CALL Cymru gyfan a DAN 24/7, Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru) Wobr Safon Ansawdd y Gymdeithas Llinellau Cymorth.

Cafodd yr Ymwelydd Iechyd Ruth Thompson ei henwi yn Ymarferydd Cymunedol y Flwyddyn gan Gymdeithas Ymarferwyr Cymunedol ac Ymwelwyr Iechyd am ei gwaith ar hyrwyddo bwydo ar y fron.

Dyfarnwyd Gwobr 'Rhagoriaeth mewn Dysgu, Addysgu ac Asesu' yng Nghymru 2011 i Liana Shirly, Prif Ffisiolegydd Clinigol, Adran Ymchwiliadau Cardioleg Ysbyty Gwynedd gan Brifysgol Morgannwg.

Liana Shirly gyda Matthew Jones y myfyriwr Seicoleg Glinigol a'i henwebodd am y wobr

Roedd yr Adran Gwybodaeth am Feddyginiaethau yn y Fferyllfa yn Ysbyty Gwynedd yn enillwyr yng Ngwobrau'r Gymraeg mewn Gofal Iechyd 2011 am eu llinell gymorth meddyginiaethau yn y Gymraeg.

Cafodd Angela Steen, Nyrs Arbenigol Glinigol Dermatoleg yn Ysbyty Glan Clwyd, Wobr Nyrsio Rhwydwaith Treialon Clinigol Dermatoleg y Deyrnas Unedig am ei gwaith ymchwil.

Dyfarnwyd gwobr Cymdeithas Lymffoleg Prydain am 'Gyfraniad Oes i Reoli Lymffoedema' i Eilish Lund, Rheolwr Nyrsio Clinigol Lymffoedema y Bwrdd Iechyd.

Cafodd Judith Roberts, Uwch Ymarferydd Ysgolion Iach Gwynedd ganmoliaeth uchel yng Ngwobrau Iechyd Rhywiol Brook UK am ddatblygu CDs rhyngweithiol dwyieithog sy'n cefnogi addysg rhyw a pherthnasoedd i blant ysgolion cynradd ac uwchradd.

Dyfarnwyd Gwobr Cyflawniad Oes yng Ngwobrau Canmlwyddiant Macmillan yng Nghymru i Lindsey Roberts, Nyrs Arbenigol Gofal Lliniarol Macmillan yn Ysbyty Gwynedd am ei gwaith yn datblygu gwasanaethau cefnogi ysbyty Macmillan.

Aeth y Wobr Arloeswr Macmillan i Theresa Richards, Nyrs Arbenigol Gofal Lliniarol Macmillan am ei gwaith yn datblygu strategaeth Diwedd Oes, gan wella'r wybodaeth a chefnogaeth i gleifion a theuluoedd.

Gwobrau Cyrhaeddiad Staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Enillwyd categori'r Cyfraniad Pwysicaf at Wella Bywydau Cleifion gan Carol Roberts, Arweinydd Tîm Hosbis yn y Cartref Gogledd Ddwyrain Cymru

Dr Mahdi Jibani, Neffrolegydd Ymgynghorol ac enillydd Gwobr Dr E C Benn am gyflawniad proffesiynol, clinigol neu academaidd hir

Ym mis Tachwedd 2011, cynhaliwyd ein hail seremoni Gwobrau Cyrhaeddiad. Sefydlwyd y gwobrau i gydnabod a dathlu gwaith staff a gwirfoddolwyr sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol at wella gofal i gleifion a bywyd gwaith staff.

Mae'r Gwobrau'n cael eu trefnu a'u gweinyddu gan yr adran Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol a chafwyd dros 200 o enwebiadau yng Ngwobrau 2011, llawer mwy na'r flwyddyn flaenorol. Roedd cystadleuaeth gref ym mhob un o'r deuddeg categori. Daeth yr enwebiadau o bob cwr o Ogledd Cymru, o sawl disgyblaeth a phroffesiwn gwahanol, gan dynnu sylw at arloesedd, egni ac ymrwymiad ein staff.

Roedd yr enwebiadau ar y rhestr fer o'r safon gorau ac roedd enillydd pob gwobr yn dangos eu bod wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i ddefnyddwyr ein gwasanaethau a'u cydweithwyr.

Ei wneud yn ddiogel

Mae diogelwch cleifion yn hollol greiddiol i'r hyn a wnawn. Er y bydd rhai risgiau bob amser yn gysylltiedig ag ymyrraeth glinigol a rhedeg gwasanaeth mor gymhleth â'r GIG, gallwn gyfyngu ar y rhain drwy gymryd y mesurau rheoli priodol. Mae'r angen hwn am ddiogelwch yn ymestyn i bob rhan o'n gwaith: diogelwch clinigol y gofal a'r driniaeth rydym yn eu darparu, mesurau iechyd a diogelwch i amddiffyn cleifion a staff ar ein heiddo, cadw gwybodaeth am gleifion yn ddiogel fel y gallwn ddarparu gofal effeithiol a gwneud yn siŵr ein bod yn barod i ymateb os byddwn yn wynebu achos brys mawr.

Ansawdd a Diogelwch

Ymgyrch 1000 o Fywydau a Mwy

Mae ansawdd yn ymwneud â chysondeb - gwneud yn siwr ein bod yn gwneud y pethau cywir, i'r safon cywir, bob tro i bob claf. Dyma un o themâu canolog yr Ymgyrch 1000 o Fywydau a Mwy genedlaethol sy'n rhedeg yng Nghymru i leihau marwolaeth a niwed i gleifion.

Rydym yn aelod gweithgar o'r ymgyrch, ac rydym yn rhedeg dros ugain o brosiectau cydweithredol – prosiectau sy'n dod â nifer o staff o wahanol ddisgyblaethau ynghyd i gydweithio ar wella diogelwch i gleifion gyda chyflyrau penodol yn cynnwys strôc, methiant y galon, mamolaeth, torri gwddf y ffemwr, dementia, achosion cyntaf o seicosis, ymateb cyflym i salwch llym a chefnogi bywyd.

Mae'r grwpiau hyn yn defnyddio methodoleg yn seiliedig ar dystiolaeth i ddatblygu 'pecynnau gofal' – cyfres o gamau penodol y dylid eu cymryd i bob claf i wneud yn siwr fod pob unigolyn yn cael gofal cyson sy'n unol ag arfer gorau.

Erbyn diwedd y flwyddyn, rhoddwyd Sgôr Rhybudd Cynnar Cymru gyfan y GIG ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan. Mae'r system sgorio hon yn helpu i ddynodi arwyddion cynnar ymhlith cleifion y mae eu cyflwr yn dechrau dirywio, fel y gallwn gamu i mewn yn gynnar, cyn i'w cyflwr ddirywio'n sylweddol.

Mae'r gwaith hwn yn arwain at welliannau amlwg mewn canlyniadau megis cyfraddau is o haint a gostyngiad parhaus yn ein cyfraddau marwolaeth wedi'u haddasu yn ôl risg dros y tair blynedd diwethaf.

Rheoli Haint

Rydym yn anelu at agwedd o “oddef dim” at heintiau yn gysylltiedig â gofal iechyd ac rydym yn gweithredu strategaeth atal a rheoli haint sy’n sicrhau ein bod yn cyflawni bob elfen o’r Fframwaith Ansawdd Blynyddol yn ymwneud â rheoli haint.

Mae’r elfennau hyn yn ymwneud â clostridium difficile (cyflawnwyd gostyngiad o 31% yn nifer yr achosion), haint mewn creithiau llawdriniaethau orthopaedig a caesarean, Niwmonia’n gysylltiedig â Pheiriannau Anadlu, a haint yn gysylltiedig â Chathetr Gwythiennol Canolog, a chyflawnwyd y cyfan. Gwelsom gynnydd bychan yn nifer yr achosion o staph aureus bactermias sy’n gwrthsefyll (o 56 i 58 achos) ond gostyngiad yn nifer yr achosion o staph aureus sensitif.

Mae gennym hefyd dargedau lleol ar gyfer glanweithdra a chyflwr adeiladau ac offer mewn ysbytai, sy’n cael eu monitro bob mis. Cydymffurfiwyd 88% gyda’r safonau; mae’r prif faterion sydd angen sylw pellach yn ymwneud â chyflwr yr adeiladau a’r angen am fwy o le i storio.

Mae safonau hylendid dwylo hefyd yn dda. Fodd bynnag, mae addysgu gweithlu mawr ac amrywiol sydd wedi’i wasgaru dros ardal eang yn her sylweddol, ac rydym yn edrych ar ffyrdd newydd o ddarparu hyfforddiant ac addysg rheoli haint.

Mae’r tîm atal a rheoli haint ym mhob prif ysbyty yn cefnogi’r Grwpiau Rhaglen Glinigol i weithredu strategaethau allweddol yn ymwneud â rheoli haint a dadlygru, gan roi cyngor ac arweiniad arbenigol wrth ymdrin ag achosion heintus.

Cafodd y Gweinidog dros Iechyd, Lesley Griffiths wers mewn technegau golchi dwylo cywir pan ymwelodd â’r Bwrdd Iechyd i lansio Fframwaith Haint yn Gysylltiedig â Gofal Iechyd Llywodraeth Cymru.

Roedd mwyafrif yr achosion yn y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â gastroenteritis firol (norofirws) a gwelwyd gwelliant sylweddol yn ystod 2011/12, gyda llai o achosion a llai o amharu ar wasanaethau na’r blynyddoedd blaenorol.

Mae llwyddiant cyffredinol ein gwaith i ddileu heintiau gofal iechyd y mae modd eu hosgoi wedi cael ei ddangos mewn Astudiaeth Pwynt Mynychder Ewropeaidd a ddangosodd fod ein cyfradd haint yn 2011 yn 4.6%, gostyngiad o'r 6.6% yn yr astudiaeth flaenorol a wnaed yn 2006.

Cadw pobl yn ddiogel

Rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau i amddiffyn iechyd, diogelwch a lles ein cleifion, ymwelwyr a staff yn ddifrifol iawn. Yn ogystal â sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, rydym yn ymgymryd â rhaglenni asesu a monitro risg i ddynodi cyfleoedd i wella. Y prif feysydd gwaith yn ystod 2011/12 oedd:

- datblygu Gweithdrefn Gynllunio Iechyd a Diogelwch Gorfforaethol;
- datblygu cyfres o dudalennau arweiniol yn ymwneud â diogelwch i staff ar ein gwefan;
- parhau â rhaglen barhaus i reoli aer er mwyn canfod asbestos yn Ysbyty Glan Clwyd
- teithiau diogewlch rheolaidd gan aelodau o'r Timau Rheoli Ysbytai i fonitro cydymffurfiad diogelwch ac i edrych am amodau anniogel;
- penodi Rheolwr Achosion Trais ac Ymosodedd i gefnogi staff sy'n dioddef trais ac ymosodedd yn y gweithle;
- cymryd rhan yn y Cynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer teclynnau Larwm i Weithiwr ar ei ben ei hun i amddiffyn ein staff;
- datblygu'r systemau iechyd a diogelwch o fewn Grwpiau Rhaglen Glinigol a Swyddogaethau Corfforaethol.

Cadw gwybodaeth yn ddiogel

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ar gasglu, cadw a defnyddio gwybodaeth yn ddiogel gan y Bwrdd Iechyd. Yn ystod y flwyddyn, cymeradwyodd y Pwyllgor bolisïau a gweithdrefnau cysylltiedig ar gyfer Rheoli Cofnodion, Mynediad at Wybodaeth, Diogelwch Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg, Diogelu Data a Chyfrinachedd.

Caldicott a Chyfrinachedd

Mae adroddiad Caldicott ynghyd â Deddf Diogelu Data 1998 yn nodi'r prif argymhellion ac egwyddorion i helpu i sicrhau fod "gwybodaeth lle gellir adnabod unigolyn" (yn cynnwys gwybodaeth am gleifion, staff a defnyddwyr gwasanaethau) yn cael ei amddiffyn yn ddigonol.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cwblhau offeryn hunanasesu cenedlaethol Caldicott ar-lein eto, gan ddefnyddio'i ganlyniadau i ddatblygu cynllun gwella.

Protocolau Rhannu Gwybodaeth

Mae pob aelod o'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth bellach yn Hwyluswyr hyfforddedig i sicrhau fod Protocolau Rhannu Gwybodaeth, sy'n rheoli'r ffordd rydym yn rhannu gwybodaeth â sefydliadau sy'n bartneriaid, yn cael eu datblygu gan ddefnyddio arweiniad a thempledi'r Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru newydd.

Rhyddid Gwybodaeth

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau fod y sector cyhoeddus yn fwy agored. Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai'r holl wybodaeth nad yw'n bersonol sy'n cael ei gadw gan gorff cyhoeddus, fod ar gael yn hawdd os nad oes costau neu eithriad.

Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Ddeddf hon, ac rydym yn ymdrechu i sicrhau fod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd drwy ein Cynllun Cyhoeddi: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/41160

Rydym hefyd yn cael ceisiadau am wybodaeth benodol gan unigolion a sefydliadau. Rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012:

- cafwyd 397 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Amgylcheddol a chafodd pob un eu cydnabod o fewn 2 ddiwrnod gwaith;
- derbyniodd 211 (53%) o'r ceisiadau ymateb llawn o fewn 20 ddiwrnod gwaith, ac roedd angen cael gafael ar wybodaeth bellach ar gyfer y ceisiadau mwy cymhleth;
- cafwyd 3 chŵyn, yn gofyn am Adolygiad Mewnol o'n hymateb;
- cafodd 1 Adolygiad Mewnol ei gyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth;
- cafwyd 1 Rhybudd Penderfyniad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn ategu penderfyniad y Bwrdd Iechyd i atal yr wybodaeth.

Mae manylion llawn y ceisiadau ar y Gofrestr Datgeliadau ar ein gwefan: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/41513.

Mae gwaith yn parhau ar draws y Bwrdd Iechyd i sicrhau fod y cyfraddau cydymffurfio ar gyfer ymateb o fewn y targed ugain diwrnod yn gwella.

Hyfforddiant

Ledled Gogledd Cymru, darparwyd 19 sesiwn hyfforddi Llywodraethu Gwybodaeth ffurfiol ac anffurfiol i'n staff.

Digwyddiadau Anffodus Difrifol

Yn ystod y flwyddyn, cafodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wybod gennym am ddau ddigwyddiad difrifol. Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu ar unwaith, a chan nad oedd unrhyw wybodaeth bersonol sensitif wedi cael ei dwyn na'i cholli, nid oedd gofyn cymryd unrhyw gamau pellach.

Bod yn Barod am Achos Brys

Mae Bod yn Barod am Achos Brys yn golygu sicrhau ein bod yn barod am unrhyw achos brys neu ddigwyddiad mawr fyddai'n rhoi ein gwasanaethau dan bwysau cynyddol, gan olygu na fyddent yn gallu gweithredu fel arfer. Rydym yn Ymatebydd Categori 1, ac felly rhaid i ni gydymffurfio â'r dyletswyddau a amlinellwyd yn y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, a chydymffurfio ag arweiniad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys:

- rhannu gwybodaeth gyda'n partneriaid er mwyn gwella diogelwch sifil;
- asesu risg ein cymunedau i ddatblygu trefniadau cyfatebol;
- datblygu cynlluniau brys sy'n rheoli a lliniaru ymateb y Bwrdd Iechyd i ddigwyddiad;
- cydweithredu â'r partneriaid i sicrhau ymateb cyfunol, cydlynol;
- datblygu trefniadau rheoli parhad busnes sy'n lliniaru amharu ar wasanaethau craidd;
- rhybuddio a rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd.

Ymarfer dad-lygru claf yn Ysbyty Glan Clwyd

Mae gennym Gynllun Digwyddiadau Mawr a chynlluniau penodol ar gyfer ein tri ysbyty llym ym Mangor, Bodelwyddan a Wrecsam. Mae'r rhain wedi cael eu hintegreiddio â chynlluniau ein partneriaid ac yn disgrifio'r trefniadau fyddai'n cael eu defnyddio i sicrhau fod digwyddiad mawr, cymhleth, ar raddfa fawr neu un sy'n esblygu, yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae'r cynllun yn amlinellu ein cyfrifoldebau strategol, tactegol a gweithredol a'r rôl fyddem ni yn ei chymryd mewn achos brys ar raddfa fawr / digwyddiad mawr.

Gwneud iddo weithio

I wneud i bopeth weithio, mae arnom angen dod â sgiliau ac arbenigedd cywir ein staff o amgylch bob claf neu ddefnyddiwr gwasanaethau. Rhaid i ni sicrhau fod gan staff yr isadeiledd a'r systemau y mae arnynt eu hangen i wneud eu gwaith, a'r cyfleusterau a'r amgylchedd iawn i ddarparu gofal o safon uchel.

Ein Gweithlu

Y Bwrdd Iechyd yw'r cyflogwr mwyaf yng Ngogledd Cymru, yn cyflogi bron i 1 ym mhob 100 o bobl sydd mewn oed gweithio yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer cyffredinol ein staff wedi parhau'n weddol gyson: gostyngiad o 33.5 o swyddi sy'n cyfateb i lawn amser, sy'n cynrychioli 0.24% o'r gweithlu cyfan. Fodd bynnag, o fewn y rhif hwn, gwelwyd cynnydd o 154.5 o staff sy'n cyfateb i lawn amser mewn swyddi clinigol (meddygol, nyrsio, bydwreigiaeth, therapyddion, gwyddonol a gweithwyr proffesiynol iechyd eraill) a gostyngiad o 186.1 o swyddi gweinyddol, clercyddol, ystâd ac atodol.

Rydym yn symud tuag at wasanaethau sy'n cael eu darparu gan feddygon ymgynghorol mewn nifer o arbenigeddau. Mae hyn yn golygu fod arnom angen parhau i ddenu staff o safon uchel ac rydym yn cyflwyno dulliau arloesol i'n helpu i wneud hyn, yn enwedig mewn arbenigeddau lle mae problemau recriwtio posibl ledled y Deyrnas Unedig. Mewn Meddygaeth Frys, rydym wedi datblygu cysylltiadau â Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Thîm Chwilio ac Achub yr RAF yn y Fali i roi cyfleoedd i feddygon ymgynghorol weithio gyda'r timau hyn. Mae'r Grwpiau Rhaglen Glinigol Gwasanaethau Merched ac Anaestheteg yn defnyddio gweithgareddau chwarae rôl fel rhan o'u trefn ddethol, tra bod gan ddefnyddwyr y gwasanaeth ran mewn recriwtio staff yn y GRhG Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.

	31 Mawrth 2011		31 Mawrth 2012	
Staff mewn swyddi fesul Grŵp Staff	**FTE* (ar gontract)**	***Cyfrif Penodiadau****	**FTE* (ar gontract)**	***Cyfrif Penodiadau****
Gwyddonol a Thechnegol Proff Ychw	578.12	*705*	641.58	*752*
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	2429.75	*2949*	2529.63	*3055*
Gweinyddol a Chlercyddol	2564.30	*3083*	2488.45	*3009*
Gweithwyr Proff Cys ag Iechyd	844.03	*1025*	829.43	*1013*
Ystadau ac Atodol	1367.23	*1763*	1256.96	*1622*
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	278.05	*305*	259.78	*285*
Meddygol a Deintyddol	1132.45	*1250*	1137.86	*1253*
Nyrsio a Bydwreigiaeth Gofrestredig	4785.69	*5678*	4804.40	*5685*
Myfyrwyr	14.00	*14*	12.00	*12*
Cyfanswm	**13993.63**	***16772***	**13960.08**	***16686***

* Mae FTE (Cyfateb I Lawn Amser) yn cyfri'r oriau a gontractwyd sy'n cyfateb i weithiwr llawn amser; Cyfrif Penodiadau yw nifer y swyddi sy'n cael eu gwneud gan staff a gyflogir, gan fod gan rai staff fwy nag un swydd gyda'r Bwrdd Iechyd.

Gofalu am ein staff

Rydym yn gweithio'n ddiwyd i hyrwyddo iechyd a lles ein staff. Mae hyn yn cynnwys mwy na dim ond lleihau absenoldebau salwch; mae arnom eisiau bod yn gyflogwr cyfrifol sy'n gwerthfawrogi ein staff, mae arnom eisiau cefnogi cydweithwyr â phryderon o'r tu allan sy'n ei gwneud yn anoddach iddynt ddarparu gofal o safon uchel, ac fel sefydliad gofal iechyd, mae arnom eisiau gosod enghraifft dda i annog eraill yn ein cymunedau i'n dilyn.

Aelodau'r grŵp iechyd a lles yn derbyn Gwobr Safon Iechyd Corfforaethol gan y Gweinidog dros Iechyd, Lesley Griffith.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio'n galed i ddangos ein hymrwymiad i iechyd a lles staff, gan lwyddo i gyflawni Gwobr Arian gref yn Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i weithio ar hyn, gan anelu at gyflawni'r safon Aur.

Wrth i'r gaeaf nesáu, cynhaliom raglen effeithiol iawn i hyrwyddo ein rhaglen brechu rhag y ffliw i staff. Cafodd 37.9% o staff gyda chyswllt clinigol uniongyrchol y brechiad, ynghyd â 36.9% o staff gweithredol. Roedd y niferodd a gafodd y brechiad yn y Bwrdd Iechyd 6.7% yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, gan leihau achosion o'r ffliw yn y gymuned ac amddiffyn ein gallu i gynnal gwasanaethau dros y gaeaf.

Rhoi'r gorau i ysmygu yw'r cam pwysicaf y gall rhywun ei gymryd i wella ei iechyd. Rydym wedi cytuno y gall cydweithwyr sydd am wneud ymdrech bendant i roi'r gorau i ysmygu yn awr gymryd hyd at 6 awr o amser i ffwrdd gyda chyflog (pro rata i'r rhai sy'n gweithio'n rhan amser) i fynd i sesiynau rhoi'r gorau i ysmygu.

Rydym wedi parhau i roi hyfforddiant i reolwyr ar reoli straen a rheoli absenoldebau, ac wedi gweithredu Polisi Absenoldebau oherwydd Salwch Cymru Gyfan. Rydym yn darparu ystadegau absenoldeb misol, sy'n rhoi data i helpu rheolwyr a thynnu sylw at amser a gollwyd a chostau salwch oherwydd absenoldeb i'r sefydliad.

Ym mis Hydref, lansiwyd y Cynllun CARE (Cyngor Cyfrinachol yn ymwneud â Gweithwyr). Datblygwyd y cynllun hwn gan y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol a Lles i ddarparu cefnogaeth a chyngor i staff o ddiwrnod cyntaf eu habsenoldeb oherwydd salwch. Mae hyn yn eu helpu i wella'n gynt neu addasu i'w sefyllfa bersonol neu waith, gan leihau absenoldebau. Mae wedi cael croeso da gan y rhai sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth.

Tîm cefnogi staff CARE

Er gwaethaf dulliau o'r fath i gefnogi staff yn y gwaith a gwella presenoldeb, yn anffodus, cynyddodd nifer yr absenoldebau oherwydd salwch ychydig yn ystod y flwyddyn. Y targed absenoldebau oherwydd salwch a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Bwrdd Iechyd oedd 4.55%, a'r gyfradd absenoldebau a gyflawnwyd oedd 4.75%. Ceir crynodeb o absenoldebau oherwydd salwch ar gyfer 2011/12 isod.

Cyfartaledd y staff a gyflogwyd o 1 Ebrill 2011 - 31 Mawrth 2012 (cyfrif pennau) (*1)	16,157
Cyfartaledd yn Cyfateb i Lawn Amser a gyflogwyd o 1 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2012 (cyfateb i lawn amser) (*2)	13,961.62
Cyfanswm y dyddiau a gollwyd	239,128.86
Cyfartaledd y dyddiau a gollwyd (FTE)	17.1
Cyfanswm staff a gyflogwyd yn y cyfnod heb absenoldeb (cyfrif pennau)	6,664
Canran staff heb absenoldeb salwch	41.25%

(*1) Cyfrif pennau yw nifer y staff a gyflogir, heb gyfri staff sydd â mwy nag un swydd ddwywaith
(*2) Mae'r Cyfrif Pennau a'r Cyfateb i Lawn Amser yn y tabl uchod yn gyfartaledd dros 12 mis ac felly ni ellir ei gymharu â data arall am staff yn yr adroddiad hwn.

Ymgysylltu a chyfathrebu â staff

Rydym yn ymgysylltu'n agos â staff ac mae trefniadau partneriaeth gref gyda'n undebau llafur yn ein helpu i gynllunio a darparu'n gwasanaethau'n effeithiol. Mae ein Fforwm Partneriaeth Leol (FfPL) yn dod ag uwch reolwyr y Bwrdd Iechyd a chynrychiolwyr undebau llafur partner ynghyd mewn cyfarfodydd bob yn ail fis. Yma, maen nhw'n gweithio mewn partneriaeth i drafod a datrys materion sy'n ymwneud a staff, eu lles ac amodau gwaith, derbyn diweddariadau'n ymwneud â chyllid, perfformiad, cynllunio a materion yn ymwneud â gweithlu a datblygiad sefydliadol.

Cefnogir ymgysylltu â staff meddygol gan waith partneriaeth drwy'r Pwyllgor Trafod Lleol. Mae partneriaid undebau llafur yn aelodau o Fyrddau Grwpiau Rhaglen Clinigol ac yn mynychu sawl pwyllgor y Bwrdd.

Rydym hefyd yn darparu ystod o ffyrdd i gyfathrebu gyda, a derbyn adborth gan ein staff. Mae'r wefan fewnrwyd fewnol yn cynnwys hysbysfwrdd o newyddion a gwybodaeth weithredol a ddiweddarir yn rheolaidd, a bwrdd bwletin lle gall aelodau staff bostio gwybodaeth efallai bydd cydweithwyr angen gwybod. Mae eitemau o'r ddwy ffynhonnell yn ffurfio sylfaen i fwletin wythnosol a gylchredir i'r holl staff.

Mae'r fforwm ar lein 'Mail to Mary' yn darparu lleoliad ar gyfer trafodaeth a sgwrs agored gyda chydweithwyr ar draws Gogledd Cymru gyfan, gyda'r Prif Weithredwr, aelodau'r Bwrdd ac uwch gydweithwyr eraill yn ymuno yn y trafodaethau ac yn ymateb i ymholiadau a godir. Mae 'rumour hotline' hefyd yn rhoi cyfle i gydweithwyr godi materion o bryder ac i dderbyn ymateb gadarn i unrhyw gwestiynau a fydd gan aelodau staff.

Buddsoddi ar gyfer y dyfodol

Rydym yn darparu ein gwasanaethau drwy rwydwaith o glinigau, lleoliadau timau, ysbytai cymuned, ysbytai llym mawr a swyddfeydd ar hyd a lled gogledd Cymru. Bu buddsoddiad arwyddocaol yn ein hystâd yn ystod 2011/12 yn ogystal â chynllunio ar ddatblygiad pellach a chynlluniau gwella a fydd yn symud i'r cyfnod adeiladu dros y flwyddyn nesaf.

Gofal Cychwynnol:

Cwblhawyd sawl cynllun Gofal Cychwynnol, gyda datblygiadau newydd yn agor yn Rhiwabon, Amlwch a'r Wyddgrug. Mae'r datblygiad yn Llanrwst yn parhau i symud ymlaen a'r dyddiad arfaethedig i gwblhau yw Gorffennaf 2012.

Mae cynlluniau pellach a gymeradwywyd, yn cynnwys datblygiadau yn y Felinheli, Harlech, Parc Caia (Wrecsam), Benllech a Bwcle.

Rydym yn parhau i weithio ar y cyd gyda meddygfeydd meddygon teulu a gwasanaethau cymuned lleol ac mae tri chynllun busnes pellach yn cael eu datblygu ar gyfer cyfleusterau yn Yr Hob, Borras (Wrecsam) a'r Waun.

Mae'r Cynlluniau Grant gwelliannau ar gyfer 2011/2012 yn cynnwys Ffynnongroyw (ger Prestatyn) gyda dyddiad arfaethedig ar gyfer cwblhau yng Ngorffennaf 2012. Cwblhawyd Canolfan Iechyd Llai ym Mawrth 2012.

Prosiect Ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd

Cawsom gymeradwyaeth Cynllun Busnes Llawn yn Chwefror 2012 ar gyfer cyllideb o £89.5miliwn i ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd. Mae gwaith wedi parhau i dynnu asbestos o adeilad gwreiddiol Ysbyty Glan Clwyd, yn unol â'r rhaglen a gytunwyd arni gyda'r Gweithredwyr Iechyd a Diogelwch.

Mae'r prosiect yn rhoi cyfle unigryw i wella gofal cleifion a sicrhau mwy o effeithiolrwydd trwy ail-gyflunio wardiau ac adrannau yn unol â'n strategaeth pum mlynedd. Bydd ein rhaglen waith wedi'i chwblhau yn 2018, a'r holl asbestos wedi'i dynnu erbyn diwedd 2017.

Y theatrau llawdriniaethau newydd fydd y rhan gyntaf o'r prosiect ailddatblygu i gael ei gwblhau. Cauwyd y chwe theatr wreiddiol ym Mawrth 2011 ar gyfer tynnu asbestos, a byddant yn cael eu disodli gan bum theatr fwy a fydd yn agor ym Mai 2012.

Ysbytai H M Stanley ac Abergele

Yn ystod y flwyddyn, ymgymerwyd â gwaith yn Ysbyty Abergele i greu dwy theatr a lle adfer, cleifion allanol, achosion dydd a lleoliad triniaeth arbenigol ar gyfer Offthalmoleg. Galluogodd hyn i ni drosglwyddo'r gwasanaeth llygaid o Ysbyty H M Stanley yn Ebrill 2012.

Un o'r theatrau llawdriniaethau newydd Yn Ysbyty Abergele

Mae'r staff corfforaethol a leolwyd yn flaenorol yn Ysbyty H M Stanley, gan gynnwys Cyllid, Ystadau a Chynllunio, RhG&T a Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol hefyd wedi'u ail-leoli'n llwyddiannus ar safle Ysbyty Abergele.

Bryn y Neuadd

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd gwaith pwysig i uwchraddio ac adewyddu gwasanaethau isadeiledd a oedd yn heneiddio, wedi hyn, dymchwelwyd y tŵr dŵr a simnai'r bwyler canolog.

Ym mis Mehefin, comisiynwyd datblygiad Tan y Coed ar safle'r Ysbyty. Mae'n cynnwys tair uned ar wahân gydag wyth gwely. Cynlluniwyd ar gyfer unigolion sydd ag anghenion iechyd parhaus, sydd angen amgylchedd cartrefol i'w paratoi ar gyfer eu lleoli yn y gymuned. Hefyd, mae'n darparu gwelyau ar gyfer unigolion sydd angen pecyn gofal dychweliad, cyn eu rhyddhau i'r gymuned.

Labordy Cathetreiddio

Cyflwynwyd achos i Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2012, yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf o £2.9 miliwn, i greu ail Labordy Cathetreiddio yn Ysbyty Glan Clwyd. Os caiff y cynllun ei gymeradwyo, mae'n golygu byddwn yn gallu cynnig gwasanaethau cardiaidd lleol cynhwysfawr i boblogaeth gogledd Cymru, gan roi diwedd ar yr angen i nifer o gleifion gael eu trin yn Lloegr. Bydd hefyd yn creu cyfle i ni ddatblygu gwasanaethau Ymyriadau Coronaidd Cychwynol Drwy'r Croen i'r dyfodol.

Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd

Ar ddiwedd y flwyddyn, cyflwynwyd Cynllun Busnes Amlinellol i Lywodraeth Cymru am fuddsoddiad cyfalaf o £8.4 miliwn yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Gwynedd. Bydd y prosiect yn ein galluogi i:

- foderneiddio ac ailgyflunio gwasanaethau gofal brys;
- sicrhau ein bod â'r gallu sydd ei angen arnom i gwrdd â thargedau perfformiad cenedlaethol;
- cyflawni egwyddorion ac argymhellion allweddol gwasanaeth Strategaeth Gwasanaeth Clinigol Gogledd Cymru.

Prosiect Ysbyty Llandudno

Cyflwynwyd Strategaeth Gwasanaethau ac Ystadau ar gyfer datblygu Ysbyty Llandudno i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2010. Mae cynllunio ar gyfer hyn wedi parhau, a chyflwynir achos am fuddsoddiad cyfalaf o £2 filiwn i ddatblygu Uned Mân Anafiadau i Lywodraeth Cymru yn Awst 2012.

Datblygiadau TG

Rydym wedi rhoi'r rhan gyntaf Porthol Clinigol Cymru ar waith yn ein hardaloedd gorllewinol, gan wneud canlyniadau profion patholeg ar gael yn fwy eang. Bydd y datblygiad hwn yn cysylltu'r amrywiol systemau a ddefnyddir mewn gwahanol adrannau ymhen amser, gan roi mynediad uniongyrchol i feddygon a staff eraill at wybodaeth glinigol allweddol o leoliadau sengl, yn agos at y claf.

Ymestynwyd Porth Cyfathrebu Clinigol Cymru ymhellach yng ngogledd Cymru, gan roi'r gallu i fwy o feddygon teulu i anfon atgyfeiriadau am apwyntiadau cleifion allanol gydag ymgynghorwyr yn uniongyrchol i'n Canolfannau Neilltuo Apwyntiadau Cleifion. Pan fydd yr holl feyddygfeydd meddygon teulu wedi'u cysylltu â hwn, byddwn yn ymestyn y system i gynnwys atgyfeiriadau i wasanaethau eraill.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar ein systemau cofnodion cleifion unigol, gan ddod ag unrhyw gofnodion lluosog ynghyd a grewyd ar gyfer cleifion a ofalwyd amdanynt gan wasanaethau unigol, a datblygu'r Cofnod Iechyd Unigol a fydd yn rhoi mynediad at gofnodion cleifion a ddelir ar systemau meddygfeydd meddygon teulu i wasanaeth y tu allan i oriau meddygon teulu.

Gwneud iddo ddigwydd

Mae gwneud iddo ddigwydd yn ymwneud â chanlyniadau: ein perfformiad a'r hyn rydym yn ei gyflawni mewn gwirionedd. Mesurir hyn ar draws sawl maes, gan gynnwys y nifer o gleifion rydym yn eu trin, amserau aros, targedau cyllid a'n perfformiad amgylcheddol. Ond nid yw yn unig ynghylch edrych yn ôl ar yr hyn rydym wedi'i wneud; mae'n ymwneud hefyd ag edrych ymlaen at sut gellir darparu mwy i'r dyfodol, drwy ddatblygu ac addasu ein gwasanaethau a thrwy weithio'n agosach gyda'n partneriaid.

Adolygiad Gweithredu ac Ariannol

Gweithgaredd ac amserau aros

Rydym yn deall fod lleihau amserau aros yn bwysig i gleifion, o ran eu hiechyd corfforol a'u profiad o ansawdd ein gwasanaethau.

Rydym wedi lleihau amserau aros yn ystod y flwyddyn hon i gleifion gogledd Cymru. Rydym wedi gweithio gyda chleifion, meddygon, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd eraill i ail-gynllunio taith cleifion o phan fyddant yn gweld eu meddyg teulu am y tro cyntaf i phan fydd eu triniaeth yn dechrau yn yr ysbyty neu gyda'n gwasanaethau cymunedol. Mae hyn wedi lliflinio'r broses atgyfeirio, gan sicrhau y cytunir ar y cwrs triniaeth cywir a bod cleifion yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth neu arbenigwr mwyaf priodol yn gyflymach.

Cefnogwyd y broses hon gan fuddsoddiad ychwanegol mewn meysydd alweddol i'n helpu i ddod â'r amserau aros i lawr yn gyflymach, gan gynnwys theatrau llawdriniaethau orthopedig newydd yn Ysbtyty Gwynedd ac Ysbyty Maelor Wrecsam. Cynlluniwyd rhain i redeg mor effeithiol â phosibl, gan lleihau'r amser a gymerir rhwng llawdriniaethau, tra bydd un claf yn symud o'r theatr, bydd y claf nesaf yn cael ei baratoi ar gyfer llawdriniaeth.

Mae datblygiadau clinigol hefyd yn golygu ein bod yn gallu cynyddu'r nifer o gleifion y gellir eu trin yn ddiogel fel achosion dydd, gyda chleifion yn cael eu derbyn, cael eu triniaeth ac yn dychwelyd adref yr un diwrnod.

Mae'r Gymdeithas Lawdriniaethau Dydd Brydeinig yn nodi hanner cant o weithdrefnau allweddol y gellir, fel arfer, eu gweithredu fel achosion dydd, ac yn ystod 2011/12, cyflawnasom ar gyfer 84.5% o'r llawdriniaethau hyn. Wrth bod cleifion yn yr ysbyty am gyfnod byrrach, gallwn gynyddu'r nifer o bobl byddwn yn eu trin, gan gynyddu ein effeithiolrwydd.

Yn debyg iawn, mae ein cleifion mewnol yn cael arosiadau ysbyty byrrach, gyda'r mwyafrif bellach yn gallu cael eu derbyn ar ddiwrnod eu gweithdrefn, ac mae gwell ôl-ofal a meddyginiaethau newydd yn golygu bod pobl yn aml yn mynd adref yn gynt.

O ganlyniad i'r datblygiadau hyn, cyflawnasom bob un o'n targedau amserau aros yn 2011/12.

Erbyn diwedd Mawrth 2012, ni wnaeth unrhyw glaf aros am fwy na 36 wythnos, o'r amser y'u hatgyfeiriwyd gan eu meddyg teulu i ddechrau eu triniaeth. Arhosodd 95.58% o gleifion llai na 26 wythnos.

Gwnaethom hefyd gyflawni ein targedau allweddol ar gyfer cleifion â chanser. Cafodd 96.1% o gleifion a atgyfeiriwyd gyda'r posibilrwydd o ganser, eu trin o fewn 62 niwrnod o'u hatgyfeiriad. O'r cleifion na dybiwyd eu bod â chanser ar y dechrau, ond wedi derbyn diagnosis o'r clefyd yn hwyrach ymlaen, derbyniodd 99.5% driniaeth o fewn 31 niwrnod o'u diagnosis.

Yn ein gwasanaethau therapi, cynaliasom fwyafswm amser aros o 14 wythnos ar gyfer yr holl wasanaethau.

Roedd ein hamserau aros yn ein Hadrannau Achosion Brys yn fwy o her a bydd yn parhau i fod yn faes i'w wella yn 2012-2013. Cafodd 84.47% o gleifion eu hasesu, trin ac yna'u rhyddhau, trosglwyddo neu eu derbyn i'r ysbyty o fewn pedair awr o gyrraedd (o gymharu â ffigur targed o 95%). Cwblhaodd 97.56% o gleifion eu gofal yn yr Adran Achosion brys o fewn wyth awr. Byddwn yn buddsoddi mewn mwy o sifftiau ymgynghorwyr a mwy o nyrsys ymarferwyr brys i gynyddu cefnogaeth glinigol lefel uwch yn yr adrannau hyn.

Parhaodd nifer y cleifion a welwyd mewn ysbytai ar draws gogledd Cymru i gynyddu, gyda chyfanswm o 1.2 miliwn o ymweliadau cleifion. Gweler rhain mewn mwy o fanylder yn y tabl isod. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys cysylltiadau cleifion mewn gofal cychwynnol (meddygfeydd meddygon teulu, fferyllfeydd cymuned, deintyddfeydd lleol ac optegwyr) sy'n cyfrif am dros 90% o weithgareddau'r GIG.

	2010/2011	2011/2012
Derbyniadau dewisol: Cleifion Mewnol ac Achosion Dydd	47,099	49,597
Derbyniadau Brys: cleifion mewnol	83,982	83,257
Cleifion Allanol Newydd (gan gynnwys Adran Achosion Brys a Mân Anafiadau)	406,225	411,846
Adran Achosion Brys: Mynychwyr newydd	213,051	217,421
Cleifion Allanol Dilynol (gan gynnwys Adran Achosion Brys a Mân Anafiadau)	420,585	443,750
Mynychwyr dydd rheolaidd	38,964	40,837
Mân weithdrefnau Cleifion Allanol		2,221
Endosgopi		16,957

Adolygiad Ariannol

Fe'n cyllidir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru a byddwn yn derbyn dyraniad blynyddol ar gyfer gwariant refeniw (ein costau rhedeg) a chyfalaf (buddsoddiad mewn adeiladau, cyfleusterau a chyfarpar). £1.20 biliwn oedd y dyraniad refeniw ar gyfer 2011/12 a £30.2 miliwn oedd y dyraniad cyfalaf.

Mae gofyn i ni weithredu o fewn y dyraniadau hyn a sicrhau balans ariannol bob blwyddyn ariannol. Rydym hefyd yn derbyn incwm gweithredu arall o ran gwasanaethau ychwanegol, gan gynnwys darparu gwasanaethau i gyrff GIG eraill, awdurdodau lleol ac addysg ac ymchwil.

Bu 2011/12 yn flwyddyn heriol dros ben oherwydd pwysau ehangach yr economi a chyllid cyhoeddus yn gyffredinol. Ynghyd â gweddill y GIG, rydym yn wynebu dyfodol anodd dros ben, oherwydd mae'r galwadau ar ein gwasanaethau'n parhau i dyfu, ond ni fydd unrhyw dyfiant mewn cyllido mewn gwirionedd ar gyfer y dyfodol agos.

Er mwyn cyflawni sefyllfa ariannol gytbwys ar gyfer 2011/12 bu raid i ni osod targed effeithiorwydd rhyddhau arian parod o £71 miliwn. Nodwyd arbedion rhyddhau arian posibl, ynghyd â chynlluniau manwl, o £49 miliwn a chyflawnwyd £45 miliwn o'r rhain o fewn y flwyddyn. Derbyniwyd cyllid ychwanegol o £17 gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2011 a chydag addasiad cyfrifeg technegol cysylltiol â threuliau cyfalaf a buddion anghylchol eraill yn dilyn adolygiad o asedau a rhwymedigaethau, roeddem yn gallu cyflawni balans ariannol.

Yn 2012/13, bydd y dyraniad cyllid yn parhau yn gyffredinol statig i gymharu â 2011/12. Fodd bynnag disgwylir i wariant fod yn uwch yn sgil nifer o bwysau gan gynnwys codiadau cyflog lle'n briodol, goblygiadau canllawiau National Institute of Clinical Excellence (NICE) ac effaith y galwadau cynyddol ar ein gwasanaethau. Felly, rydym wedi gorfod gosod targed arbedion o £64.6 miliwn, sy'n cynnwys pwysau chwyddiant a gwsanaeth newydd o £40.3 miliwn.

Rydym yn gwneud ymdrech barhaus i bontio'r bwlch arbedion hwn heb gyfaddawdu ar ansawdd a diogelwch ein gwasanaethau. Archwilir bob cynllun arbedion i asesu unrhyw risgiau clinigol neu gyllidol, fel ein bod yn gallu sicrhau fod diogelwch ac ansawdd y gwasanaeth yn cael eu cynnal. Mae'r meysydd allweddol rydym yn edrych arnynt yn ymwneud ag ailgynllunio'r gweithlu wrth i ni ddatblygu a moderneiddio gwasanaethau a dychweliad gwaith yn ôl i ogledd Cymru rydym ar hyn o bryd yn talu amdanynt gan ddarparwyr allanol. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar gynhyrchaeth ac effeithiolrwydd, gan osod a dilyn targedau, gan gynnwys hyd arhosiad yn yr ysbyty, cyfraddau llenwi gwelyau, gwneud y deunydd gorau un o amser theatrau llawdriniaethau a chynyddu'r gyfradd o gleifion y gellir eu trin fel achosion dydd.

Targedau Perfformiad Ariannol

Rydym wedi cyrraedd pob un o'r targedau perfformiad ariannol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Crynhoir ein perfformiad gwirioneddol isod:

Cyflawni balans ariannol gweithredol yn erbyn Terfyn Adnoddau Refeniw
Targed: cadw o fewn y terfyn adnoddau refeniw o £1.2 biliwn a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.
Cyflawnwyd hyn gyda thanwariant bach o £75,000.

Cyflawni balans ariannol gweithredol yn erbyn Terfyn Adnoddau Refeniw
Targed: sicrhau nad yw'r rhaglen gyfalaf yn mynd dros y terfyn adnodd cyfalaf o £30 miliwn.
Cyflawnwyd hyn gyda thanwariant bach o £17,000.

Polisi Talu'r Sector Cyhoeddus
Targed: Talu 95% o anfonebau heb fod yn rhai'r GIG (niferoedd) o fewn 30 diwrnod.
Cyflawnwyd hyn, drwy dalu 96.6% o anfonebau o fewn 30 diwrnod.

Rheoli Arian
Targed – Dal balans arian diwedd blwyddyn o rhwng dim a £4 miliwn.
Cyflawnwyd hyn gyda balans arian diwedd blwyddyn o £735,000

Ein hyrwymiadau amgylcheddol a chymdeithasol

Crynhoir ein perfformiad yn 2011/12, a fesurwyd gan set o ddangosyddion allweddol, yn y tabl canlynol:

	Perfformiad 2010/2011	**Perfformiad 2011/2012**	**Cymhariad Blynyddol**	Targed Perfformiad
Gollyngiadau Nwyon Tŷ Gwydr (Ynni)	49,035 Tunnell CO_2	**46,235 Tunnell CO_2**	**-5.7%**	3% o leihad mewn blwyddyn
Defnydd Ynni yr Ystad	173,972,931 kwh	**164,111,341 kwh**	**-5.7%**	3% o leihad mewn blwyddyn
Gwastraff yr Ystad	4,489 tunnell	**4,161 tunnell**	**-7.3%**	3% o leihad mewn blwyddyn
Defnydd Dŵr yr Ystad	556,541 m^3	**530,375 m^3**	**-4.7%**	3% o leihad mewn blwyddyn

Fel rhan o'n hymroddiad corfforaethol tuag at yr amgylchedd, rydym yn gweithredu System Reoli Amgylcheddol (EMS) ffurfiol, a gynlluniwyd i gyflawni'r egwyddorion allweddol canlynol:

- datblygiad cynaliadwy;
- cydymffurfiad gyda gofynion cyfreithiol a llywodraethol perthnasol;
- rhwystro llygredd;
- lliniariad yn erbyn effaith newid hinsawdd;
- diwylliant o welliant parhaus.

I sicrhau ein bod â rheolaeth amghylcheddol effeithiol rydym:

- wedi creu Grŵp Llywio Amgylcheddol sy'n ymgymryd ag adolygiadau rheolaidd o effeithiolrwydd yr EMS;
- yn hyrwyddo'n polisi amgylcheddol i bob rhanddeiliad perthnasol;
- yn nodi holl agweddau amgylcheddol arwyddocaol a gofynion cyfreithiol cysylltiol sy'n codi o ddatblygiadau gwasanaeth, cyfreithiau newydd a newidiadau eraill;
- wedi sefydlu a monitro amcanion a thargedau a anelwyd at leihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol; yn unol â'r rhai a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;
- yn darparu hyfforddiant briodol i'r holl bersonel perthnasol;
- yn gweithredu archwiliadau mewnol ac allanol rheolaidd;
- yn gweithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyflawni ymagwedd sector cyhoeddus gyson i reolaeth amgylcheddol a sicrhau y nodir a gweithredir gweithrefnau arferion gorau.

Cymru o Blaid Affrica

Rydym yn gyfranwr brwdfrydig at raglen Cymru o Blaid Affrica, yn adeiladu ar gysylltiadau a sefydlwyd rhwng Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Hossana yn Ethiopia.

Staff Ysbyty Glan Clwyd yn hyfforddi cydweithwyr Ethiopaidd yn ystod taith i Ysbyty Hossana

Mae'r rhaglen Cymru o Blaid Affrica yn rhan o ymroddiad Llywodraeth Cymru i gefnogi Nodau Datblygu'r Mileniwm, gan roi cyfle i staff y GIG i rannu eu harbenigedd ac amser i wella iechyd yn Affrica. Mae ein cysylltiadau bellach wedi'u hymestyn i gynnwys Ysbyty Yirga Alem, hefyd yn Ethiopia ac Ardal Iechyd Quthing yn Lesotho.

Ein Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol Gweithredol yw'r arweinydd Gweithredol ar gyfer y rhaglen hon a gydnabyddir fel esiampl o arfer gorau. Mae'n galluogi'n staff i ymweld ag Affrica i helpu gyda hyfforddiant ac addysg, atgyweirio cyfarpar a phrosiectau isadeiledd. Ar yr un pryd, byddwn ni yn dysgu o ddyfeisgarwch ac ymagwedd ein cyfatebwyr Affricanaidd, yn darparu gofal iechyd heb gymorth yr holl gyfleusterau rydym yn eu cymryd yn ganiataol yma yn y DU.

Gofal Cychwynnol

Er bod rhai cleifion yn cael mynediad at wasanaethau iechyd drwy Adrannau Achosion Brys (D&A) neu Unedau Mân Anafiadau mewn ysbytai, bydd 90% o gleifion yn dod i gyswllt â'r gwasanaeth iechyd drwy Ofal Cychwynnol: Mewn meddygfeydd meddygon teulu, fferyllfeydd cymunedol, deintyddfeydd lleol ac optegwyr.

Yng ngogledd Cymru mae gennym ychydig dros 400 o feddygon teulu yn gweithio mewn 119 practis a 52 meddygfa cangen yn ogystal â 153 o fferyllfeydd, 90 allfa optometreg gyda 204 optegydd a 243 deintydd yn darparu'r rhan fwyaf o wasanaethau'r GIG mewn 101 deintyddfa. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn gontractwyr annibynnol neu fusnesau sydd â chytundebau gyda'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau i gleifion y GIG.

Er nad ydym yn cyflogi'r rhan fwyaf o'r darparwyr gofal cychwynnol yn uniongyrchol, fel Bwrdd Iechyd, rydym yn gyfrifol am sicrhau fod eu gwasanaethau ar gael i gleifion ac yn cwrdd â safonau ansawdd a diogelwch ac am gydlynu eu gwaith gyda rhannau eraill o'r gwasanaethau cymuned ac ysbyty.

Mae'r cydlyniad hwn yn hanfodol os ydym am gyflawni ein nod o ddarparu ystod ehangach o wasanaethau diogel, ansawdd uchel mor lleol â phosibl i lle mae'r cleifion yn byw, yn enwedig i gleifion gyda chyflyrau iechyd tymor hir. Yn ogystal â bod yn fwy cyfleus i gleifion, bydd hyn yn helpu i leddfu'r galwadau cynyddol ar ein ysbytai llym. Felly, yn ystod y flwyddyn, rydym wedi canolbwyntio ar wella cyfathrebiad ac integreiddiad rhwng gwasanaethau drwy ddatblygu ein strwythur ardal leol.

Rydym wedi sefydlu pedair ardal leol ar ddeg ar draws gogledd Cymru. Mae'r rhain bellach yn sefydlu sail ar gyfer cynllunio ein gwasanaethau iechyd cymuned leol a gweithio gyda'n partneriaid sector gofal cymdeithasol a gwirfoddol. Mae pob ardal leol â meddyg teulu arweiniol, metron yr ardal leol, fferyllydd, therapydd, gweithiwr cymdeithasol a chynrychiolydd y sector gwirfoddol sy'n cyfarfod i adolygu a chynllunio gwasanaethau yn eu cymunedau lleol.

Mae'r ardaloedd lleol yn seiliedig ar ffiniau awdurdodau lleol, gyda rhai wedi'u rhannu'n ddwy neu dair ardal, fel bod pob ardal leol o gwmpas yr un maint, yn gwasanaethu poblogaeth o rhwng 30,000 a 50,000 o bobl. Cytunwyd ar yr ardaloedd lleol hyn gydag awdurdodau lleol gogledd Cymru.

Mae'r datblygiadau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- ymestyn y gwasanaeth Gofal Ychwanegol yn y Cartref;
- peilotio Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw i bobl sydd yn eu deunaw mis olaf o fywyd, fel ein bod yn gallu gofalu am fwy o bobl yn eu catrefi eu hunain neu leoliad preswyl, tuag at ddiwedd eu bywyd;
- dod â lleoliadau timau iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd mewn sawl ardal leol, gan wella cyfathrebiaeth rhyng-asiantaethol a chydweithio;
- cyflwynwyd gwasanaeth telefeddygaeth ar gyfer cleifion dermatoleg yng nghanol a de Sir Ddinbych, gyda chynlluniau i ehangu hyn i rannau eraill Gogledd Cymru;
- sicrhau cyllid o £8.9m gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cynlluniau Strategol Gofal Iechyd Parhaus. Drwy weithio gyda'n partneriaid, mae'r rhain yn ein helpu i gefnogi pobl yn eu cymunedau eu hunain a'u helpu i ddysgu neu adfer y sgiliau angenrheidiol i fyw bob dydd;
- parhau i ddatblygu gwasanaethau gwrthfiotig mewnwythiennol a thrallwysiadau gwaed yn y gymuned.

Rhan allweddol o waith gofal cychwynnol yw rhwystro salwch a hyrwyddo iechyd da. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cael llwyddiant arwyddocaol gyda'n rhaglenni imiwneiddio plentyndod ac ymgyrch brechu yn erbyn ffliw y gaeaf, gan roi mesurau yn eu lle i gefnogi nodi cynnar a rheoli gorbwysedd effeithiol (sy'n chwarae rhan allweddol i rwystro clefyd cardiofasgwlaidd) a blaengareddau i gefnogi cleifion sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.

Rydym hefyd yn gweithio i roi mynediad rhwyddach i bobl at wasanaethau meddygon teulu a deintyddol a rhoddwyd cynlluniau ar waith a fydd yn cynyddu darpariaeth deintyddol y GIG mewn ardaloedd o angen yng ngogledd Cymru dros y flwyddyn nesaf.

Mae'n ofynnol arnom, gan Lywodraeth Cymru, i gynhyrchu adroddiad manwl ar wasanaethau gofal cychwynnol; mae hwn i'w weld ar ein gwefan yn:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/agordogfen/188348

Adolygiadau gwasanaeth ac ymgysylltiad cyhoeddus

Yn ystod 2011/12 mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn ymgysylltu â staff, ein partneriaid a chymunedau i ystyried model y dyfodol ar gyfer gwasanaethau iechyd yng ngogledd Cymru. Mae "Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid" yn adolygiad cynhwysfawr o'n gwasanaethu i sicrhau eu bod yn cwrdd â safonau ansawdd cenedlaethol ac yn ddiogel a chynaladwy i'r dyfodol.

Ym mis Tachwedd 2011, ystyriodd y Bwrdd gyfres o adroddiadau dechreuol ar welliannau gwasanaeth a derbyniodd yr angen am newid. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar feysydd allweddol o heriau, sef:

- Gwasanaethau Ardaloedd Lleol a Chymuned;
- Gwasanaethau Pediatrig;
- Gwasanaethau Mamolaeth, Gynaecoleg a Newydd-anedig;
- Llawfeddygaeth Gyffredinol Annewisol;
- Trawma ac Orthopedig.

Ystyriwyd adroddiad pellach ar Iechyd Meddwl Pobl Hŷn yn Chwefror 2012.

Ers yr amser hwn, mae'r Bwrdd wedi bod yn trafod modelau gwasanaeth y dyfodol gyda chleifion, gofalwyr, staff, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Disgwylir i'r gwaith hwn ddod i ben erbyn Gorffennaf 2012 ac, os bydd y modelau gwasanaeth newydd arfaethedig yn golygu newid arwyddocaol, bydd y Bwrdd yn ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol yn ystod haf a hydref 2012.

Gweithio gyda'n partneriaid

I ddarparu gwasanaethau effeithiol a gwerth am arian, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â sawl sefydliad statudol a gwirfoddol ar draws gogledd Cymru. Mae hyn yn ein galluogi i wneud gwell deunydd o'n adnoddau ac ychwanegu gwerth at y gwasanaethau rydym yn eu darparu drwy gydnabod rhyngddibynniaeth, rhannu arbenigedd, risgiau a buddion a chynllunio gwasanaethau o gwmpas anghenion y cleifion a dinasyddion.

Ein partneriaid allweddol yw Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a'r chwe awdurdod lleol, sef Ynys Môn, Gwynedd, Bwrdeistref Sirol Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Rydym yn eistedd fel aelodau o'r pedair bartneriaeth statudol:

- Byrddau Gwasanaeth Lleol;
- Partneriaethau Strategol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles;
- Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc;
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (gan gynnwys Camddefnyddio Sylweddau).

Yn ogystal â hyn, rydym yn gweithio'n agos gyda nifer o sefydliadau gwirfoddol sy'n gweithio ym maes gofal iechyd a chefnogi. Yn 2011/12 buddsoddasom dros £6 miliwn yn comisynu 115 gwasanaeth gan sefydliadau sector cyhoeddus.

Datblygiad Sefydliadol

Mae ymyriadau Datblygiad Sefydliadol yn chwarae rhan hanfodol i sicrhau fod y Bwrdd Iechyd yn datblygu fel sefydliad sy'n perfformio'n dda. Yn benodol, rydym yn buddsoddi mewn datblygiad arweinyddiaeth i arfogi ein staff meddygol a chlinigol gyda'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i arwain ar ein gwasanaethau.

Rydym yn darparu rhaglenni datblygiad arweinyddol ar gyfer staff o bobl lefel, o Benaethiaid Staff a'u Penaethiaid Staff Cysylltiol hyd at swyddi goruchwyliol. Yn ystod y flwyddyn lansiwyd cyfres o raglenni hyfforddi rheolwyr 'Supporting You', a gynlluniwyd i helpu rheolwyr i gyflawni eu swyddogaethau'n fwy teg ac effeithiol.

Maes gwaith allweddol arall eleni fu ymgysylltu â gweithwyr. Rydym wedi mabwysiadu Strategaeth Ymgysylltu â Gweithwyr i sicrhau ein bod yn gwerthfawrogi a defnyddio ymroddiad, brwdfrydedd a gwybodaeth ein staff pan fyddwn yn cynllunio a gweithredu datblygiadau a gwelliannau gwasanaeth.

Rydym hefyd wedi mabwysiadu a chytuno ar set o werthoedd ac ymddygiad a ddisgwylir gan bawb sy'n gweithio i'r Bwrdd Iechyd. Aelodau staff sydd wedi llunio'r gwerthoedd hyn, drwy gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu o'r enw 'Y Sgwrs Fawr' a ddigwyddodd ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Daeth defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rhan yn y trafodaethau a'n helpu i lunio'r gwerthoedd hyn. Er bod y rhan fwyaf o'n staff eisoes yn adlewyrchu'r gwerthoedd hyn yn eu hagwedd a'u gweithredoedd, mae tystiolaeth yn dangos fod sail gwerthoedd gref ac wedi'i diffinio'n glir yn helpu i ddarparu gwasanaeth fwy diogel ac o ansawdd uwch.

Ei wneud yn well

Rydym bob amser yn ymdrechu i wella profiad pawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Yn ogystal â gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i wella ein hymarfer a gofal clinigol, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn trin pawb â pharch, urddas a thosturi, a chefnogi iechyd a lles unigolion ar draws Gogledd Cymru.

Gwella profiad defnyddwyr y gwasanaeth

Rydym wedi parhau i geisio gwella profiad pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Rydym wedi ymestyn cynllun gwirfoddolwyr ward y Robiniaid, gan gynyddu nifer yr adrannau a wardiau ysbyty llym a chymunedol lle mae'r gwirfoddolwyr hyn yn darparu gwasanaethau cynorthwyo a 'chyfarfod a chyfarch' sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Gwnaethom lansio ein Hadduned Urddas, sy'n manylu ar y safonau gall defnyddwyr ein gwasanaethau ddisgwyl eu derbyn. Mae hyn wedi'i seilio ar ymchwil cenedlaethol ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth lleol am beth mae urddas yn golygu iddynt. Rydym wedi diwygio ein hyfforddiant gofal cwsmeriaid i adlewyrchu'r Adduned Urddas a'n gwaith ar dosturi mewn gofal, sy'n cael ei arwain gan seiciatrydd.

I wneud yn siŵr bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth â cholled synhwyraidd fynediad cyfartal at wasanaethau, rydym wedi datblygu cynllun gweithredu colled synhwyraidd. Mae hyn yn cynnwys gosod safonau ar gyfer safonau gwybodaeth hygyrch, cyflwyno e-bost pwrpasol i'n canolfan trefnu apwyntiadau, a gweithio i sefydlu gwasanaeth dehongli a chyfieithu ar draws y Bwrdd Iechyd o 2012/13.

Yn ystod y flwyddyn, daeth arweinwyr gofal ysbrydol ac aelodau cymunedol at ei gilydd mewn gweithdy Gogledd Cymru gwnaethom ei gynnal i roi cyfle i bob rhanddeiliad a grŵp ffydd ddylanwadu ar ein Strategaeth Gofal Ysbrydol newydd a'i siapio. Er mwyn darparu gwasanaeth gofal ysbrydol cynhwysfawr a holistig rydym wedi penodi pedwar caplan ychwanegol.

Rydym hefyd yn awyddus i wneud yn siŵr ein bod yn darganfod beth yw barn cleifion a phobl eraill ar ein gwasanaethau, fel ffordd o helpu i gyfeirio datblygiadau yn y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom lansio cynllun cerdyn sylwadau newydd i annog pobl i roi adborth anffurfiol i ni am eu profiadau, yn ysgrifenedig neu drwy e-bost.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'r ymgyrch 1000 o Fywydau a Mwy i gasglu storïau cleifion unigol y gellir eu defnyddio i ddarparu adborth defnyddwyr a gwersi sy'n gallu helpu i wella gwasanaethau. Ac rydym wedi comisiynu Sefydliad Picker Ewrop i gynnal arolwg o Wasanaethau Cleifion Allanol, yn dilyn gwaith tebyg maent eisoes wedi'i wneud ar ein gwasanaethau cleifion mewnol.

Moderneiddio a Gwella Gwasanaeth

Mae ein tîm gwella a moderneiddio yn parhau i helpu gwasanaethau clinigol i edrych ar y ffordd maent yn gweithio a chyflwyno ffyrdd newydd o weithio.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda darparwyr iechyd eraill o'r radd flaenaf i rannu dysgu a chyflymu'r broses o welliant parhaus. Yn lleol rydym yn helpu ein staff i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i adolygu eu gwasanaethau, nodi meysydd ar gyfer gwelliant a llunio datrysiadau arloesol sy'n gwella gofal.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gynnal ein Cynhadledd Gwelliant cyntaf, a roddodd cyfle i gydweithwyr o bob rhan o ogledd Cymru ddod at ei gilydd, clywed am ddatblygiadau sy'n digwydd ar draws y Bwrdd Iechyd, rhannu syniadau a thrafod sut gellir datblygu gwasanaeth ymhellach.

Rydym wedi gwella'r gofal o ddydd i ddydd ar gyfer pobl â chlefydau fel strôc, a gweithio gyda hwy fel eu bod yn gallu gwneud mwy i reoli eu cyflyrau eu hunain. Rydym wedi cyflwyno'r system Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol i nodi'r arwyddion cynnar pan fydd eu cyflwr yn dechrau dirywio fel y byddant yn cael y driniaeth sydd ei hangen yn gynnar. Mae hyn yn golygu bod pobl yn mynd yn llai sâl, a'r bwriad yw gostwng nifer y bobl y mae angen eu derbyn i'n hunedau gofal critigol.

Hefyd mae ail-ddylunio'r ffordd byddwn yn darparu ein gwasanaethau yn gallu golygu ei bod yn bosibl darparu mwy o ofal yn agos at gartrefi cleifion, neu yn eu cartrefi eu hunain. O ganlyniad, mae'r gyfradd dderbyn ar gyfer cleifion â chyflyrau tymor hir fel problemau resbiradol a chardiaidd wedi gostwng.

Enghraifft arall o hyn yw'r Gwasanaeth Datrys Argyfwng yn y Cartref ar gyfer pobl sy'n byw yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Mae'r gwasanaeth hwn yn dod â gofal iechyd meddwl i gartrefi pobl sy'n dioddef pwl iechyd meddwl llym, gan roi'r cymorth sydd ei angen arnynt heb yr amhariad ychwanegol o gael eu derbyn i ysbyty.

Mae ein tîm meddygol llym, yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor, wedi derbyn Gwobr 'Shine' y Sefydliad Iechyd, sydd wedi ariannu ymchwil am ddulliau newydd o asesu cleifion oedrannus ac eiddil sy'n cael eu derbyn i unedau meddygol llym i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu rhoi ar y llwybr gofal cywir yn gyflym. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i'r Bwrdd Iechyd dderbyn Gwobr 'Shine', gwnaeth y wobr flaenorol alluogi gwelliannau i wasanaethau cardioleg a chyfathrebu rhwng meddygon teulu ac ysbytai o ran rheoli cleifion â phroblemau cardiaidd.

Mae datblygiad newydd arall wedi cyflwyno gwasanaeth deintyddol cymunedol estynedig, sy'n golygu bod cleifion yn gallu cael rhai gweithredoedd deintyddol, a oedd yn golygu ymweliad ag ysbyty yn y gorffennol, mewn lleoliad cymunedol. Mae cynlluniau eraill a ailddyluniwyd yn gwneud yn siŵr ein bod yn darparu gwasanaeth o safon gyson ar draws Gogledd Cymru, gan gynnwys gwaith ar golled clyw, gwddf y forddwyd wedi torri, gofal strôc a gwasanaethau cymunedol cyhyr-ysgerbydol.

Mae ein gwaith ar wella estynedig ar ôl llawdriniaeth orthopaedig wedi ein harwain i gael ein penodi fel canolfan cyfeirio Ewropeaidd, yn darparu cyngor ac yn cynnal ymweliadau gan ddarparwyr gofal iechyd eraill sydd eisiau dysgu o'n llwyddiannau.

Mae'r rhaglen gwella estynedig yn rhoi'r claf yng nghanol ei ofal, ac yn gwneud yn siŵr ei fod wedi'i addysgu yn well am ei driniaeth cyn llawdriniaeth fel ei fod yn gwybod beth i'w disgwyl ac yn gallu gwneud penderfyniadau deallus am ei driniaeth. Byddant yn dilyn llwybr gofal sy'n cyflymu adferiad fel ei fod yn gallu gadael ysbyty ar ôl arhosiad byrrach ac adsefydlu llawer yn fwy cyflym nag yn achos dulliau traddodiadol o ymwneud â gofal. Mae boddhad cleifion â'r gwasanaeth hwn yn ardderchog ac mae deilliannau yr adroddwyd arnynt yn dangos gwelliant sylweddol, gellir eu cymharu â'r gorau yn y DU.

Ymateb i bryderon

Byddwn yn derbyn cwynion, pryderon, sylwadau a chanmoliaeth gan gleifion, eu ffrindiau a'u perthnasau a chynrychiolwyr gan gynnwys Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad, Cynghorau Iechyd Cymuned ac eiriolwyr. Mae'r wybodaeth a gawn o bryderon ac ymchwiliadau yn cael ei defnyddio i'n helpu i wella ein gwasanaethau a'n helpu i gwrdd â disgwyliadau ein cleifion.

O 1 Ebrill 2011, mae'r modd y mae sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn delio â chwynion, hawliadau a digwyddiadau (a elwir gyda'i gilydd yn bryderon) wedi newid. Enw'r trefniadau newydd yw Gweithio i Wella ac maent wedi golygu bod yn rhaid i ni newid ein dull o ddelio â phryderon. Ffocws y trefniadau newydd yw 'ymchwilio unwaith, ymchwilio yn dda' fel bod pryderon yn cael y driniaeth gywir, y tro cyntaf.

Darparwyd hyfforddiant i'n staff am y dull newydd o weithredu, ac maent wedi cael eu hannog a'u cefnogi i ddatrys unrhyw bryderon fel maent yn codi a bod yn agored os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.

Pan fydd ymchwiliadau yn nodi bod yna wersi i'w dysgu, bydd cynlluniau yn cael eu rhoi ar waith i ymateb i'r rhain a byddant yn cael eu monitro yn rheolaidd nes bod tystiolaeth ar gael i ddangos bod yr holl weithredoedd wedi cael eu cwblhau.

Yn ystod 2011/12:

- derbyniwyd 11,116 canmoliaeth;
- deliwyd â 747 pryder anffurfiol yn y fan a'r lle;
- derbyniwyd 1,372 pryder ffurfiol; cafodd 91% o'r rhain gydnabyddiaeth o fewn 2 diwrnod gwaith;
- derbyniodd 447 (33%) o bryderon ffurfiol ymateb llawn o fewn 30 diwrnod gwaith; roedd 754 (55%) o bryderon ffurfiol yn ymwneud ag achosion mwy cymhleth a oedd yn cymryd mwy o amser i ymchwilio iddynt a gwnaethant dderbyn ymateb llawn ar ôl mwy na 30 diwrnod gwaith;
- derbyniwyd 26 cais am Adolygiad Annibynnol;
- cyfeiriwyd 76 pryder at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er mwyn iddo ymchwilio iddynt;
- adroddodd staff ar 12,651 digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion, o'r rhain roedd 9, 501 (80%) yn perthyn i gategori na fyddai'n achosi niwed neu'n achosi mân niwed yn unig. Mae'r digwyddiadau hynny sy'n perthyn i gategori a fyddai o bosiblyn achosi niwed, yn debygol neu'n debygol iawn o achosi niwed yn cael eu hymchwilio ar y lefel briodol ac mae gwersi'n cael eu dysgu pan fo hynny'n angenrheidiol;
- derbyniwyd 221 o hawliadau cyfreithiol ffurfiol newydd; roedd 147 yn hawliadau esgeulustra clinigol ac roedd 54 yn hawliadau anaf personol;
- cwblhawyd 62 o hawliadau o fewn y flwyddyn a chyfanswm cost yr hawliadau a gafodd eu setlo oedd £13,640,033.

Yr Iaith Gymraeg

Rydym yn parhau i wneud cynnydd sylweddol o ran darparu gwasanaethau yng Nghymraeg a Saesneg.

Rydym wedi penodi Hyrwyddwr Cymraeg ym mhob Grŵp Rhaglen Glinigol a bellach byddant yn cyfarfod fel Grŵp Gweithredol yr Hyrwyddwyr i rannu gwybodaeth ac ymarfer da.

Derbyniodd yr Adran Gwybodaeth Feddyginiaeth yn Fferyllfa Ysbyty Gwynedd gydnabyddiaeth arbennig yng Ngwobrau'r Gymraeg mewn Gofal iechyd am eu Llinell Gymorth Meddyginiaeth ddwyieithog.

Bydd ein Swyddogion Iaith Gymraeg yn mynychu cyfarfodydd rheolwyr practis Meddygon Teulu ac maent yn datblygu partneriaethau â nifer o feddygfeydd ar draws Gogledd Cymru.

Rydym wedi sicrhau arian grant 'Cynllun Gweithleoedd Dwyieithog' oddi wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac wedi defnyddio'r arian i wella sgiliau Cymraeg hanner can aelod o staff.

Rydym wedi datblygu safle Cymraeg ar fewnrwyd y Bwrdd Iechyd, sy'n rhoi mynediad hawdd i staff at wybodaeth am y Cynllun Iaith, y gwasanaeth cyfieithu ac adnoddau a thempledi iaith. Hefyd mae cwrs iaith Gymraeg sylfaenol a thraciau sain ar gael arlein ar gyfer cydweithwyr sy'n dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Yn ystod yr haf buom yn cydweithio â'n partneriaid yng Ngwasanaeth Ambiwlans Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chymdeithas Feddygol Cymru ar stondin gwasanaethau iechyd yn yr Eisteddfod Cenedlaethol yn Wrecsam. Roedd y stondin yn brysur trwy gydol yr wythnos a chawsom gyfle i hyrwyddo nifer o wasanaethau a negeseuon hybu iechyd i'r cyhoedd.

Roedd y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ar stondin yr Eisteddfod, yn dangos y ffordd gywir i lanhau dannedd i rieni a phlant ac yn dosbarthu pecynnau iechyd y geg

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Eleni gwnaethom ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf, yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Ddeddf yn symleiddio a chryfhau cyfraith gwrth-gwahaniaethu ac yn cael gwared ar anghysondebau, gan ei wneud yn haws i sefydliadau ddeall y Ddeddf a chydymffurfio â hi.

Mae'r Cynllun yn adeiladu ar gynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Sengl a gyhoeddwyd gennym yn 2009. Bydd yn sicrhau bod gwerthoedd cydraddoldeb sef tegwch, parch, urddas ac ymreolaeth ac egwyddorion hawliau dynol yn cael eu hystyried yn briodol yn y sefydliad ac yn dylanwadu ar benderfyniadau ar bob lefel. Bydd hefyd yn hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol ymhlith ein gweithwyr ac yn helpu i lunio diwylliant ein sefydliad.

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid sector cyhoeddus ar faterion cydraddoldeb ac i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag anghydraddoldeb, gan gynnwys gwaith ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru am faterion sy'n ymwneud ag amddifadedd cymdeithasol-economaidd a'r anghydraddoldebau iechyd gall y rhain eu hachosi.

Rydym wedi datblygu a chyhoeddi set o amcanion cydraddoldeb ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Gwnaethom ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid ac ystyried adroddiadau cenedlaethol a lleol sydd eisoes yn bodoli (gan gynnwys adroddiad allweddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'Pa mor deg yw Cymru?)' ynghyd â thystiolaeth arall, i wneud yn siŵr bod yr amcanion hyn yn briodol ac ystyrlon. Bellach mae'r amcanion hyn yn rhan o'n harweiniad cynllunio.

Rydym wedi datblygu strategaeth i wneud yn siŵr ein bod yn asesu effaith unrhyw newidiadau a gynlluniwyd i wasanaethau yn erbyn y dyletswyddau cydraddoldeb penodol a bellach mae hyn yn rhan ganolog o'r prosesau adolygu gwasanaeth a datblygu polisi.

Mae ein staff cydraddoldeb wedi gweithio gyda defnyddwyr y gwasanaeth i ddatblygu pecyn e-ddysgu newydd ar gyfer staff y Bwrdd Iechyd am Gydraddoldeb a Hawliau Dynol. Bellach mae "Tegwch, Hawliau a Chyfrifoldebau" yn hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff ac yn helpu staff i adnabod nad yw'r tlodi, anfantais ac eithrio cymdeithasol sy'n cael ei brofi gan lawer o bobl anabl yn ganlyniad anochel i'w hamhariadau neu gyflyrau meddygol, ond yn gallu deillio o agweddau pobl eraill a rhwystrau amgylcheddol.

Rydym wedi parhau i fonitro ein gweithlu a bodloni'r gofynion adrodd mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig mewn deddfwriaeth Cydraddoldeb.

Ymchwil a dysgu

Ymchwil a Datblygiad (YaD)

Mae Ymchwil a Datblygiad yn rhoi cyfle i archwilio ffyrdd arloesol o ddarparu gofal iechyd sy'n fwy diogel, yn fwy effeithlon ac yn fwy effeithiol. Ar unrhyw un adeg mae gennym oddeutu pedwar cant o brosiectau ymchwil 'byw' sy'n cael eu cynnal ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd i recriwtio cleifion ar gyfer treialon clinigol ac i staff ddatblygu sgiliau newydd trwy weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr mewn athrofeydd academaidd a diwydiant. Mae gan y GIG yng Ngogledd Cymru hanes hir o weithio mewn partneriaeth â'r Prifysgolion ym Mangor a Wrecsam ac fel Bwrdd Iechyd Prifysgol rydym yn ehangu ein gweithgareddau academaidd ac ymchwil.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NISCHR) yn rhoi cyfeiriad strategol i wasanaethau ymchwil a datblygiad yng Nghymru. Yn 2011/12, gwnaethom sicrhau grantiau NISCHR er mwyn:

- cynyddu'r isadeiledd ymchwil ym meysydd delweddu a fferylliaeth;
- prynu cyfarpar patholeg, radioleg, fferylliaeth, uned academaidd a'r swyddfeydd R&D a fydd yn cefnogi gweithgaredd treialon clinigol;
- cefnogi datblygiad technoleg arloesol mewn ffiseg feddygol.

Ym mis Ionawr 2012 roeddem yn destun i Arolygiad Ymarfer Clinigol Da MHRA gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), a oedd yn canolbwyntio ar dreialon clinigol sy'n cael eu noddi gan y Bwrdd Iechyd. Treuliodd yr arolygwyr bedwar diwrnod yn siarad â staff clinigol a rheolwyr ac yn ymweld ag adrannau. Gwnaethant gyhoeddi adroddiad positif am ein gwaith, gan ein hannog i barhau i gefnogi gweithgaredd treialon clinigol a pharhau i ddatblygu systemau rheoli ansawdd lleol. Bellach mae hyn ar y gweill, gan weithio ar y cyd â chydweithwyr o Brifysgolion Glyndŵr a Bangor.

Erbyn diwedd y flwyddyn roedd ein Haelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol wedi asesu ein gwaith ymchwil a datblygiad yn erbyn Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd cenedlaethol GIG Cymru (Safon 21). Roedd hyn yn dangos bod y gwasanaeth wedi llwyddo i wneud systemau a strwythurau yn rhan ganolog o ymarfer normal.

Archwiliad Clinigol

Proses craffu ar ein hymarfer lleol yn erbyn safonau a dderbyniwyd yw Archwilio Clinigol, i wneud yn siŵr bod cleifion yn derbyn gofal sy'n unol ag ymarfer gorau. Mae ein Grŵp Archwilio Clinigol yn cynnwys aelod lleyg sy'n cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau a datblygu prosesau archwilio clinigol. Mae hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod persbectif y claf yn cael ei ystyried bob amser.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Grwpiau Rhaglen Glinigol wedi adolygu eu cynlluniau archwilio clinigol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn briodol. Maent wedi cymryd rhan mewn nifer o raglenni archwilio cenedlaethol ac archwiliadau cyfrinachol cenedlaethol a chofrestrwyd 491 prosiect archwilio clinigol lleol ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae'r adran Archwilio Clinigol yn darparu hyfforddiant mewn gweithdrefnau archwilio clinigol i aelodau o staff a thimau clinigol ar draws y Bwrdd Iechyd, ac ym mis Tachwedd 2011 gwnaethant gynnal Diwrnod Effeithiolrwydd Clinigol a oedd yn darparu cyfle i staff arddangos a rhannu eu gwaith gyda chydweithwyr o bob rhan o Ogledd Cymru.

Mae gwaith archwilio wedi dynodi cyfleoedd i wella ymwybyddiaeth ac addysg staff - er enghraifft i sicrhau fod cleifion sy'n cael pelydr-x yn cael eu hamddiffyn yn briodol, a gwella archwiliadau a dilyniant wrolegol gan feddygon iau.

Mae archwiliadau hefyd wedi dangos manteision newidiadau i'r gwasanaethau anaeshteteg, gyda gwell gwybodaeth i gleifion a chyflwyno gwasanaeth poen llym dan arweiniad meddyg ymgynghorol gyda rowndiau wardiau dyddiol, newidiadau i arferion asesu tonsilectomi a gwell cydymffurfiad ag arweiniad o ran y defnydd o dawelyddion i gleifion dros 70 oed sy'n cael colonosgopi.

Monitro a Safonau Gofal Iechyd

Fel corff cyhoeddus statudol, rydym yn destun i raglen gadarn o asesu, archwilio ac arolygu. Nod hyn yw sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau statudol a deddfwriaethol, yn dynodi meysydd ar gyfer gwelliant ac yn sicrhau bod ein systemau a gweithdrefnau mewnol yn addas i'r diben.

Mae rhai asesiadau'n rhan o gynlluniau gwaith blynyddol gan archwilwyr mewnol ac allanol, mae rhai yn cael eu cychwyn gan Lywodraeth Cymru, ac mae rhai ar gais y Bwrdd Iechyd yn fewnol.

Mae Safonau Gofal Iechyd wrth wraidd gwelliannau parhaus o ran ansawdd a phrofiadau o wasanaethau a gofal y mae gan boblogaeth Gogledd Cymru hawl i'w disgwyl. Yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru, cwblhawyd Hunan-Asesiad Llywodraethu ac Atebolrwydd.

Mae'r broses hon wedi bod yn destun sicrwydd mewnol annibynnol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, sydd wedi cadarnhau fod y Bwrdd Iechyd wedi dangos y dylem gael ein hasesu fel "*cynlluniau a phrosesau sy'n datblygu ac yn gallu dangos cynnydd gyda rhai o'u prif feysydd ar gyfer gwella".* Mae hyn yn gosod ein datblygiad ar y trydydd haen, allan o bump, ar gyfer pob un o'r meini prawf o 'osod y cyfeiriad', 'galluogi darpariaeth', 'darparu canlyniadau, cyflawni rhagoriaeth' a 'lefel aeddfedrwydd cyffredinol'.

Gellir cael mwy o wybodaeth ar yr asesiad Safonau Gofal iechyd yn ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn y cyfrifon blynyddol cyflawn, sydd ar gael ar gais i Helen Simpson, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid (gweler tudalen 39 am fanylion cyswllt).

Iechyd Cyhoeddus

Mae iechyd poblogaeth Gogledd Cymru yn parhau i wella. Fodd bynnag, mae amrywiadau yn parhau o ran deilliannau iechyd rhwng gwahanol ardaloedd a chymunedau, ac mewn rhai achosion mae anghydraddoldebau o'r fath yn cynyddu.

Mae ffactorau fel incwm, addysg a thai yn cael dylanwad mawr ar lefelau iechyd da. Mae pobl mewn cymunedau gwaeth eu byd yn yr ardaloedd hyn hefyd yn fwy tebygol o ysmygu, peidio â gwneud ymarfer corff rheolaidd, peidio â bwyta diet iach, ac ymddwyn mewn ffyrdd sy'n gallu peryglu eu hiechyd. Mae hyn yn golygu bod ein cymunedau mwyaf tlawd hefyd â'r statws iechyd gwaethaf, sy'n effeithio ar hyd ac ansawdd eu bywydau. Nhw sy'n gwneud y defnydd mwyaf o wasanaethau gofal iechyd.

Fel rhan o'n gwaith i leihau'r anghydraddoldebau hyn ac anghydraddoldebau iechyd, mae ein Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus wedi canolbwyntio ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2011 ar Flynyddoedd Cynnar. Roedd yn dangos bod tystiolaeth gref ar gyfer ceisio gwella iechyd mamau cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd. Mae hyn yn gwella datblygiad addysgol, iechyd a chymdeithasol plant gymaint â phosibl, ac mae'n cael yr effaith fwyaf pan fydd hyn yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl. Hefyd mae yna achos economaidd cryf dros fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar oherwydd bod hyn yn rhoi mwy o fudd na buddsoddi mewn unrhyw gyfnod arall mewn bywyd unigolyn.

I wneud hyn, rydym yn canolbwyntio ar helpu merched beichiog i roi'r gorau i ysmygu, hybu pwysau iach a diogel ar gyfer merched yn ystod beichiogrwydd, iechyd meddwl merched cyn ac ar ôl genedigaeth, cynyddu nifer y mamau sy'n bwydo ar y fron, lleihau nifer y merched yn eu harddegau sy'n beichiogi a gwella cyfraddau manteisio ar frechiadau ar gyfer plant a merched beichiog.

Rydym wedi cael llwyddiant sylweddol trwy ddarparu hyfforddiant ar gyfer bydwragedd ac ymwelwyr iechyd i roi cyngor am roi'r gorau i ysmygu, ynghyd â chefnogaeth barhaus ar gyfer gwasanaethau Dim Smygu Cymru ac mewn fferyllfeydd.

Ym mis Ionawr 2012 gwnaethom lansio ein polisi di fwg, gan gadarnhau ein hymrwymiad i leihau nifer y bobl yng Ngogledd Cymru sy'n ysmygu a gwahardd ysmygu ar diroedd y Bwrdd Iechyd. Ein her yw gostwng canran y boblogaeth sy'n ysmygu o 23% i 16% erbyn 2020.

Ymhlith meysydd blaenoriaeth Iechyd Cyhoeddus eraill ar gyfer Gogledd Cymru mae mynd i'r afael â gordewdra trwy hyrwyddo gweithgareddau corfforol a maeth iach, alcohol a lles meddyliol.

Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill sy'n bartneriaid i lunio a gweithredu cynlluniau ar gyfer pob un o'r meysydd hyn, sy'n rhan o'n Fframwaith Strategol Iechyd Cyhoeddus Lleol (LPHSF). Mae'r ffocws hwn ar atal ac ymyrraeth gynnar hefyd yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer gwaith parhaus i gefnogi datblygiad gofal cychwynnol a gwasanaethau cymunedol.

Hefyd mae'r Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus a'i dîm wedi darparu tystiolaeth a chyngor arbenigol annibynnol i'n hadolygiadau gwasanaeth. Mae'r adolygiadau'n cael eu cynnal i sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau iechyd diogel ac effeithiol, i wella eu hansawdd, a rhoi gwell profiad gofal iechyd i gleifion a gwell deilliannau. Mae tystiolaeth y tîm Iechyd Cyhoeddus wedi rhoi fframwaith i ni asesu a blaenoriaethu gwasanaethau o fewn y cyfyngiadau ariannol, a chyfyngiadau eraill, rydym yn eu hwynebu.

Diogelu iechyd y boblogaeth yw un o'r swyddogaethau allweddol. Y llynedd gwnaethom weld cynnydd parhaus yn nifer yr unigolyn yn manteisio ar frechiadau plentyndod a ffliw ar draws Gogledd Cymru. Am y tro cyntaf mewn 25 mlynedd cyflawnwyd cyfraddau brechu 95% ar gyfer plant un oed ym mhob un o chwe ardal awdurdod lleol Gogledd Cymru. Hefyd cyflawnwyd y lefel 95% mewn tair ardal ar gyfer brechu MMR plant dwy oed. Fodd bynnag, mae achosion o glefydau heintus gellir eu hosgoi, fel y frech goch yn ardal Gwynedd, wedi ein hatgoffa o'r angen i barhau i gynyddu cyfraddau brechu ar gyfer pob oedran, yn enwedig ymhlith y grwpiau mwyaf agored i niwed a staff y Bwrdd Iechyd.

Yn ystod 2011/12, mae cefnogaeth amddiffyn iechyd hefyd wedi chwarae rhan amlwg yn Ymchwiliad Hanson Cement yn Sir y Fflint, a datblygiadau arfaethedig Gorsaf Bŵer Niwclear yn yr Wylfa, Ynys Môn.

Ei wneud yn gadarn

Rydym yn sefydliad sector cyhoeddus, sy'n cael ei ariannu gan drethdalwyr, felly mae'n hanfodol ein bod yn gweithredu yn unol â lefelau uchel o gywirdeb, gonestrwydd, atebolrwydd, didwylledd a phroffesiynoldeb. Mae strwythur rheoli a sicrhau cryf yn golygu bod y Bwrdd Cyfarwyddwyr ac Aelodau Annibynnol yn gallu gwneud yn siŵr ein bod yn dangos safon uchel o lywodraethu.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol y BILl. Manylir ar gyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus maent yn atebol amdanynt, ac am gadw cofnodion priodol, ym Memorandwm Swyddogion Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau y manylwyd arnynt yn fy llythyr penodi yn Swyddog Atebol.

Prif Weithredwr 7 Mehefin 2012

Datganiad Llywodraethu

Mae ein Datganiad Llywodraethu yn dilyn y fformat sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei gwblhau o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys adroddiadau Archwilio Mewnol. Mae'r datganiad yn disgrifio ein trefniadau llywodraethu, strwythur pwyllgorau a'r system rheoli fewnol.

Hefyd mae'r Datganiad Llywodraethu yn cynnwys gwybodaeth am:

- y trefniadau i reoli risg;
- prosesau ansawdd a sicrwydd, gan gynnwys cynnydd â rhoi 1000 o Fywydau a Mwy ar waith;
- llywodraethu corfforaethol gan gynnwys cynnydd ar roi Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru ar waith;
- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC);
- barn y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol llawn yn rhan o'r cyfrifon blynyddol llawn sydd ar gael ar gais i Helen Simpson, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid (gweler tudalen 39 am fanylion cyswllt)..

Rheoli Risg

Gwyddom, oherwydd natur gofal iechyd, y gall pethau fynd o chwith weithiau. Rydym yn rheoli hyn trwy ddeall beth ydy'r risgiau, sut y gallwn eu lleihau a thrwy drefniadau monitro ac adolygu cadarn, i sicrhau bod popeth posibl yn cael ei wneud i osgoi niwed.

Ym mis Tachwedd 2011 gwnaethom adolygu ein Polisi a Strategaeth Rheoli Risg. Ymhlith elfennau'r fframwaith risg a sicrwydd mae:

- creu diwylliant sy'n gosod y claf yng nghanol popeth a wnawn;
- annog adrodd am gamgymeriadau'n agored a sicrhau y dysgir gwersi ac y defnyddir mesurau'n brydlon i osgoi ailadrodd;
- creu dull o weithredu sy'n hollol 'ymwybodol o risg';
- gwneud yn siŵr bod rheoli risg yn gyfrifoldeb i bawb.

Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi adolygu ein dogfen fframwaith rheoli risg ac wedi gwneud nifer o newidiadau i egluro'r broses asesu risg a dwysau risg.

Ein Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddarparu gofal iechyd a gwella iechyd a lles poblogaeth gogledd Cymru. Mae'n atebol i Lywodraeth Cymru trwy'r Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, naw Aelod Annibynnol, naw Cyfarwyddwr Gweithredol a dau Gyfarwyddwr sy'n Aelodau Cyswllt o'r Bwrdd.

Penodir y Cadeirydd a'r Aelodau Annibynnol o'r gymuned leol oherwydd yr arbenigedd penodol gallant ei gynnig i redeg y Bwrdd Iechyd. Mae'r Cyfarwyddwyr yn weithwyr amser llawn sy'n gyfrifol am reolaeth weithredol y Bwrdd Iechyd.

Hefyd ceir Aelodau Cyswllt sy'n cynrychioli'r Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd a'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid.

Mae gan y Bwrdd Iechyd saith Pwyllgor sy'n goruchwylio agweddau penodol ar fusnes y Bwrdd:

- Archwilio;
- Ansawdd a Diogelwch;
- Cyllid a Pherfformiad;
- Llywodraethu Gwybodaeth;
- Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol;
- Cronfeydd Elusennol;
- Deddf Iechyd Meddwl.

Cadeirydd

Yr Athro Merfyn Jones

Aelodau Annibynnol

Dr Lyndon Miles
(Is Gadeirydd)

Y Parch Hywel Davies

Ms Jenie Dean

Mr Keith McDonogh

Mr Harri Owen-Jones

Mrs Hilary Stevens

Dr Christopher Tillson

Mrs Marian Wyn Jones
o 1 Rhagfyr 2011

Mrs Liz Roberts
o 1 Rhagfyr 2011

Cyfarwyddwyr

Mrs Mary Burrows
Prif Weithredwr

Mr. Mark Scriven
Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol

Mrs Jill Galvani
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Cleifion

Mr Geoff Lang
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl

Dr Keith Griffiths
Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd

Mr Andrew Jones
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus

Mrs Helen Simpson
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid

Mr Martin Jones
Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol

Mr Neil Bradshaw
Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio

Mr Mark Common
Cyfarwyddwr Gwella a Chefnogi Busnes

Mrs Grace Lewis-Parry
Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfathrebu

Gan y Pwyllgor Archwilio mae'r rôl allweddol o gynghori a chynnig sicrwydd i'r Bwrdd fod gan y sefydliad drefniadau llywodraethu effeithiol a phenderfynu cadarn yn unol â'r safonau llywodraethu da sy'n ofynnol gan y GIG yng Nghymru.

Aelodau'r Pwyllgor yw Dr Christopher Tillson (Cadeirydd), y Parch Hywel M Davies, Ms Jenie Dean a Mr Keith McDonogh. Maent i gyd yn Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd. Nid yw'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn aelodau o'r Pwyllgor, ond maent yn mynychu, yn ogystal â swyddogion eraill yn cynnwys cynrychiolwyr o Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru a'r Gwasanaeth Gwrth Dwyll Lleol.

Hefyd mae'r Aelodau Annibynnol yn 'hyrwyddwyr' ar gyfer meysydd gwaith penodol yn y Bwrdd Iechyd:

Yr Athro Merfyn Jones	Hylendid, Glendid a Rheoli Heintiau
Dr Lyndon Miles	Pobl Hŷn
Mr Keith McDonogh	Plant; Iechyd Cyhoeddus
Mr Harri Owen-Jones	Cwynion
Dr Christopher Tillson	Pobl Ifanc; Dylunio
Parch Hywel M Davies	Iaith Gymraeg; Cyn Filwyr
Mrs Hilary Stevens	Cynnwys y Cyhoedd a Chleifion
Ms Jenie Dean	Trais ac Ymosodedd; Cydraddoldeb

Mae tri Chyd Bwyllgor Ymgynghorol (y Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd, y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a'r Fforwm Partneriaeth Lleol) yn darparu mwy o graffu, sicrwydd, cynnwys ac ymgysylltu i'r Bwrdd.

Yn ystod 2011/12 cynhaliodd y Bwrdd adolygiad o berfformiad a swyddogaethau ei Bwyllgorau. Gwnaethpwyd hyn i wneud y pwyllgorau'n fwy effeithiol, gwneud gwell defnydd o amser Aelodau Annibynnol, cynyddu'r defnydd o dechnoleg fideo-gynadledda i leihau amser a chostau teithio, a sicrhau bod materion sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch yn cael eu hystyried fel rhan o holl fusnes y Bwrdd.

Datganiadau Diddordeb Cyfarwyddwyr

Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Bwrdd, ynghyd ag uwch swyddogion, ddatgan unrhyw ddiddordeb sydd ganddynt a allai effeithio ar eu gallu i fod yn ddiduedd o ran eu gwaith yn y Bwrdd Iechyd.

Yn y rhestr isod mae'r Cyfarwyddwyr a'r Aelodau Bwrdd canlynol wedi datgan eu diddordebau ar gyfer 2011/12:

Dr Lyndon Miles	Partner, Canolfan Feddygol Bron Derw, Bangor
Y Parch Hywel Davies	Croesffyrdd Ynys Môn
Mr Harri Owen-Jones	Llywydd Age Cymru, Gogledd Ddwyrain Cymru
	Ymddiriedolwr Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
Mrs Hilary Stevens	Ei gŵr yw Cyfarwyddwr Unity Creative plc
	Pwyllgor Canser Ron a Margaret Smith
	Aelod Bwrdd/Pwyllgor Gweithredol/ Pwyllgor Polisi Cyhoeddus Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
	Aelod Bwrdd NEWCIS
	Ymddiriedolwr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Dr Christopher Tillson	Partner, Meddygfa Bodnant, Bangor
Mrs Marian Wyn Jones	Cyfarwyddwr Cysylltiol, Tower Media Training
	Cyfarwyddwr, Canolfan Gerdd William Mathias
	Cyfarwyddwr, Gŵyl Gerdd Newydd Bangor
Mrs Liz Roberts	Aelod Bwrdd, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
	Cadeirydd, GrŴp Gweithredu Cymuned Menter Siabod
Mrs Mary Burrows	Aelod Cyngor, Prifysgol Bangor
	Cyrnol Anrhydeddus, Ysbyty Maes 208, Lerpwl
Mr Geoff Lang	Llywodraethwr Coleg Iâl, Wrecsam
Dr Keith Griffiths	Cymdeithas Henry Leach
Mr Andrew Jones	Gwraig yn gweithio i BIPBC

Mae'r Aelodau Bwrdd canlynol wedi datgan nad oes ganddyn nhw unrhyw wrthdaro posibl o ran diddordebau: Yr Athro Merfyn Jones; Ms Jeni Dean; Mr Keith McDonogh; Mr Mark Scriven; Mrs Jill Galvani; Mrs Helen Simpson; Mr Martin Jones; Mr Neil Bradshaw; Mr Mark Common; Mrs Grace Lewis-Parry.

Prif ddatganiadau ariannol a nodiadau

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd gynhyrchu set o ddatganiadau ariannol blynyddol yn defnyddio fformat sy'n gyffredin i bob corff GIG yng Nghymru. Mae'r datganiadau blynyddol yn agored i archwiliad a darperir barn archwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol dros Gymru.

Paratowyd Datganiadau Ariannol y Bwrdd Iechyd yn unol â'r ffurf a'r amserlen a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y cyfrifon yn amodol ar archwiliad allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru a rhoddwyd barn archwilio ddiamod arnynt ar 12 Mehefin 2012.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi llety i nifer o Wasanaethau Cymru Gyfan a chyfunwyd trafodion y rhain yn Natganiadau Ariannol y Bwrdd Iechyd. Rheolir y gwasanaethau hyn ar wahân i rai'r Bwrdd Iechyd ac nid ydynt yn achosi unrhyw risg ariannol ychwanegol i'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r datganiadau ariannol cryno sydd yn yr adroddiad hwn yn ddatganiadau gweithgareddau'r Bwrdd Iechyd yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys effaith y gwasanaethau a roddir llety iddynt ar ran GIG Cymru. Mae tystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru'n cadarnhau bod y datganiadau ariannol cryno hyn yn gyson â'r cyfrifon llawn y rhoddwyd y farn archwilio arnynt.

Mae'r datganiadau ariannol cryno a ddangosir yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr (yn cynnwys Cyflawni Balans Ariannol Gweithredol a Therfyn Adnoddau Cyfalaf);
- Datganiad o Sefyllfa Ariannol;
- Datganiad o Newid yn Ecwiti Trethdalwyr
- Datganiad Llif Arian.

Ni fydd y datganiadau ariannol cryno yn cynnwys digon o wybodaeth i roi dealltwriaeth lawn o sefyllfa a pherfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd. Mae set lawn o ddatganiadau ariannol cyfunol ar gael drwy wneud cais i Mrs Helen Simpson, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yn yr Adran Gyllid, Ysbyty Maelor Wrecsam, Bocs PO 860, Wrecsam, LL13 7JL.

Datganiad Net Cynhwysfawr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012

	2011/12 £'000	2010/11 £'000 Ailddynodwyd
Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Cychwynnol	**287,423**	287,965
Gwariant ar ofal iechyd gan ddarparwyr eraill	**273,553**	277,627
Gwariant ar Ysbytai a Gwasanaethau Iechyd Cymuned	**778,610**	752,631
	1,339,586	1,318,223
Llai: Incwm amrywiol	**118,547**	117,286
Costau gweithredol net y Bwrdd Iechyd cyn llog ac enillion a cholledion	**1,221,039**	1,200,937
Enillion eraill	**(12)**	(148)
Costau Cyllid	**189**	163
Costau gweithredol net am y flwyddyn ariannol	**1,221,216**	1,200,952

Cyflawni Balans Ariannol Gweithredol

Perfformiad y Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012 yw:

	2011/12 £'000
Costau gweithredol net am y flwyddyn ariannol	1,221,216
Llai gwariant annewisol *	1,792
Costau gweithredol net llai gwariant annewisol a chanlyniadau refeniw PFI	1,219,424
Terfyn Adnoddau Refeniw	1,219,499
Tanwariant yn erbyn Terfyn Adnoddau Refeniw	75

Terfyn Adnoddau Cyfalaf

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd gadw o fewn ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf:

	2011/12 £'000	2010/11 £'000
Gwariant cyfalaf gros	**31,900**	52,587
Llai NBV o waredu eiddo, peiriannau mawr a chyfarpar ac asedau anniriaethol	**(522)**	(1,755)
Llai grantiau cyfalaf a dderbyniwyd	**(303)**	(855)
Llai rhoddion a dderbyniwyd	**(888)**	(993)
Cost yn erbyn Terfyn Adnoddau Cyfalaf	**30,187**	48,984
Terfyn Adnoddau Cyfalaf	**30,204**	49,015
Tanwario yn erbyn Terfyn Adnoddau Cyfalaf	**17**	31

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel ar 31 Mawrth 2012

	31 Mawrth 2012 £'000	31 Mawrth 2011 £'000 Ailddynodwyd
Asedau anghyfredol		
Eiddo, peiriannau a chyfarpar.	**512,821**	515,656
Asedau anniriaethol	**1,708**	2,102
Masnach ac eitemau derbyniadwy eraill	**25,853**	32,673
Cyfanswm asedau anghyfredol	**540,382**	550,431
Asedau Cyfredol		
Rhestrau eiddo	**11,665**	10,503
Masnach ac eitemau derbyniadwy eraill	**49,773**	41,884
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb	**735**	2,173
	62,173	54,560
Asedau anghyfredol a ddosbarthir fel "Yn cael eu dal i'w gwerthu"	**501**	380
Cyfanswm Asedau Cyfredol	**62,674**	54,940
Cyfanswm asedau	**603,056**	605,371
Rhwymedigaethau cyfredol		
Masnach ac eitemau taladwy eraill	**109,812**	118,367
Darpariaethau	**31,819**	24,378
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol	**141,631**	142,745
Net rhwymedigaethau cyfredol	**(78,957)**	(87,805)
Rhwymedigaethau anghyfredol		
Masnach ac eitemau taladwy eraill	**1,386**	1,446
Darpariaethau	**28,728**	34,407
Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol	**30,114**	35,853
Cyfanswm asedau a ddefnyddir	**431,311**	426,773
Ariannwyd gan:		
Ecwiti trethdalwyr		
Cronfa Gyffredinol	**371,804**	380,992
Cronfa wrth gefn ailbrisio	**59,507**	45,781
Cyfanswm ecwiti trethdalwyr	**431,311**	426,773

Datganiad Newid yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012

	Cronfa Cyffredinol £000au	Ailbrisio Cronfa Cadw £000au	Cyfanswm Cronfeydd Cadw £000au
Newid yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2011/12			
Ailddatgan Balans ar 1 Ebrill 2011	380,992	45,781	**426,773**
Costau gweithredol net am y flwyddyn	(1,221,216)		**(1,221,216)**
Net ennill/(llai) ar ail-werthuso eiddo, peiriannau a chyfarpar.	0	15,551	**15,551**
Lleihad yng ngwerth a gwrthdroadau	0	(1,729)	**(1,729)**
Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn	96	(96)	**0**
Cyfanswm cydnabyddedig incwm a gwariant ar gyfer 2011/12	(1,221,120)	13,726	**(1,207,394)**
Net Arian Llywodraeth Cymru	**1,211,932**		**1,211,932**
Balans ar 31 Mawrth 2012	371,804	59,507	**431,311**

Datganiad Llif Arian am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012

	2011/12 £'000	2010/11 £'000
Llif arian o weithgareddau cyfredol		
Costau gweithredol net am y flwyddyn ariannol	**(1,221,216)**	(1,200,952)
Symudiadau mewn Cyfalaf Gweithio	**86**	(9,478)
Addasiadau llif cyfalaf eraill	**66,006**	51,936
Darpariaethau a ddefnyddiwyd	**(17,139)**	(14,657)
All-lif arian net o weithgareddau cyfredol	**(1,172,263)**	(1,173,151)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		
Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar	**(42,672)**	(42,383)
Elw o waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar	**534**	1,903
Prynu asedau anniriaethol	**(160)**	(324)
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi	**(42,298)**	(40,804)
All-lif arian net cyn ariannu	**(1,214,561)**	(1,213,955)
Llif arian o weithgareddau ariannu		
Arian Llywodraeth Cymru (gan gynnwys cyfalaf)	**1,211,932**	1,210,464
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd	**1,191**	1,848
Ariannu net	**1,213,123**	1,212,312
Lleihad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb	**(1,438)**	(1,643)
Arian a'r hyn sy'n cyfateb (a gorddrafftiau banc) ar 1 Ebrill	**2,173**	3,816
Arian a'r hyn sy'n cyfateb (a gorddrafftiau banc) ar 31 Mawrth	**735**	2,173

Côd Ymarfer Gwella Arfer Taliadau

Mae Côd Ymarfer Gwella Arfer Taliadau Cydffederasiwn Diwylliant Prydain yn gofyn bod pob credydwr masnach yn cael ei dalu o fewn 30 diwrnod i dderbyn nwyddau neu anfoneb ddilys, p'run bynnag sydd ddiweddarach. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o gydymffurfiad o 95% ar gyfer nifer yr anfonebau a delir i gredydwyr heb fod yn y GIG. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhagori ar y targed hwn ac mae manylion y perfformiad yn dilyn.

	2011/12 Nifer	2011/12 £000	2010/11 Nifer	2010/11 £000
GIG				
Cyfanswm y biliau a dalwyd	6,499	214,856	5,507	215,784
Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed	5,911	211,938	4,993	212,723
Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed	91.0%	98.6%	90.7%	98.6%
Heb fod yn y GIG				
Cyfanswm y biliau a dalwyd	235,988	293,443	233,936	284,261
Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed	228,038	285,033	226,869	277,102
Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed	96.6%	97.1%	97.0%	97.5%
Cyfanswm				
Cyfanswm y biliau a dalwyd	242,487	508,299	239,443	500,045
Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed	233,949	496,971	231,862	489,825
Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed	96.5%	97.8%	96.8%	98.0%

Costau rheoli

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gadw costau rheoli mor isel ag sy'n rhesymol bosib, er mwyn sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu cyfeirio at wasanaethau rheng flaen. O ganlyniad mae swyddi rheoli a chostau rheoli'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Fel rhan o osod cyllideb ym Mawrth 2010, cytunodd y Bwrdd Iechyd y byddai strwythurau rheoli yn cael eu hadolygu i wneud y gorau o'r enillion yn dilyn integreiddio'r Bwrdd Iechyd. Roedd y strategaeth hon yn cynnwys sefydlu strwythurau gyda lleihad cyffredinol o 20% mewn costau rheoli. Yn dilyn ymdrechion sylweddol ar draws GRhG ac Adrannau Corfforaethol, daethpwyd i gytundeb ar y newidiadau i strwythurau staff er mwyn sicrhau'r lleihad angenrheidiol mewn costau. Mae'r fethodoleg hon wedi cael ei drosglwyddo i 2011/12.

Cyflawnwyd y gwaith hwn dan y Polisi Newid Sefydliadol ac mewn ymgynghoriad â staff a'u cynrychiolwyr ochr staff i sicrhau bod ymgysylltu da gyda staff ynghylch cytuno ar strwythur rheoli sy'n ateb y diben ac yn ychwanegu gwerth at y Bwrdd Iechyd.

Mae Costau Rheoli'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn erbyn gwaelodlin gytunedig 2007/08, sy'n cael ei addasu ar gyfer chwyddiant. Mae'r Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i leihau costau rheoli i lefel addas ac yn unol â'r targed a osodwyd.

Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae darpariaeth Cynllun Pensiwn y GIG yn cwmpasu gweithwyr presennol a chyn-weithwyr.

Cynllun cenedlaethol heb ei ariannu, buddion diffiniedig ydyw sy'n cwmpasu cyflogwyr y GIG, meddygfeydd teulu a chyrff eraill, a ganiateir dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol. O ganlyniad nid yw'n bosib i'r Bwrdd Iechyd ddynodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun.

Felly, mae Datganiad Cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn cynnwys cyfraniadau'r cyflogwr o 14% o dâl pensiwn.

Cyfanswm cost pensiwn yn berthnasol i 2011/12 oedd £57,472,000.

Mae manylion pellach am y cynllun pensiwn ar gael yn y cyfrifon blynyddol llawn sydd ar gael ar gais i Helen Simpson, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid (gweler manylion cyswllt ar dudalen 39).

Adroddiad Tâl

Mae tâl Cyfarwyddwyr Gweithredol ac aelodau uchel iawn eraill y Bwrdd Iechyd, ynghyd ag agweddau eraill o'u telerau ac amodau gwasanaeth, yn cael ei bennu gan Bwyllgor Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol y Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan Gadeirydd y Bwrdd Iechyd, yr Athro Merfyn Jones ac mae'n cynnwys yr Aelodau Annibynnol Dr Lyndon Miles, Ms Jenie Dean, Mr Keith McDonogh, Mr Harri Owen-Jones a Dr Christopher Tillson. Mae'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Bydd tâl uwch reolwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a rhai'r dyfodol yn dilyn cyfarwyddebau Llywodraeth Cymru. Cafodd cyflogau eu pennu gan Lywodraeth Cymru drwy'r system Gwerthuso Swydd y JESP fel rhan o raglen Diwygio GIG yn 2009.

Mae pob swydd yn amodol ar reoli perfformiad, ond nid oes yr un elfen benodol o'r cyflog yn gysylltiedig â pherfformiad, naill ai ar ffurf ychwanegiad at y cyflog craidd neu gadw peth o'r cyflog craidd. Mae'r system Rheoli Perfformiad Unigol yn dilyn yr hyn a gyhoeddir ac a orchymynnir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o raglen Diwygio GIG 2009.

Mae pob contract yn barhaol, gyda chyfnod o 3 mis o rybudd ymadael. Sefydlwyd yr amodau gan Lywodraeth Cymru fel rhan o raglen Diwygio'r GIG 2009.

Arweiniodd rhaglen Diwygio'r GIG 2009 at uno wyth sefydliad iechyd i ffurfio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Er 2009, mae tri Uwch Reolwr wedi gadael drwy drefniant colli swyddi, tra bo eraill wedi gadael drwy gynllun Gadael Swydd yn Gynnar O Wirfodd. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi craffu ar y trefniadau taliadau diswyddo hyn yn 2011, a chafwyd, ym mhob agwedd faterol, bod y taliadau wedi eu gwneud yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd.

Mae manylion cyflogau, lwfansau a buddion pensiwn Aelodau'r Bwrdd a Rheolwyr Uchel Iawn yn y tabl isod.

Enw a theitl	2011/12				2010/11			
	Cyflog (bandiau o £5,000) £000	Tâl arall (bandiau o £5,000) £000	Taliadau Bonws (bandiau o £5,000) £000	Buddion mewn nwyddau (Wedi'i dalgrynnu i'r £100 agosaf) £000	Cyflog (bandiau o £5,000) £000	Tâl arall (bandiau o £5,000) £000	Taliadau Bonws (bandiau o £5,000) £000	Buddion mewn nwyddau (Wedi'i dalgrynnu i'r £100 agosaf) £000
Yr Athro M Jones Cadeirydd	**65-70**	**0**	**0**	**0**	0	0	0	0
Dr L Miles Is-gadeirydd	**55-60**	**0**	**0**	**0**	55-60	0	0	0
Y Parch H Davies **Aelod Annibynnol**	**15-20**	**0**	**0**	**0**	15-20	0	0	0
Ms J Dean (*1) lAelod Annibynnol	**0**	**0**	**0**	**0**	0	0	0	0
Mr K McDonogh lAelod Annibynnol	**15-20**	**0**	**0**	**0**	15-20	0	0	0
Mr H Owen-Jones Aelod Annibynnol	**15-20**	**0**	**0**	**0**	15-20	0	0	0
Mrs H Stevens Aelod Annibynnol	**15-20**	**0**	**0**	**0**	15-20	0	0	0
Dr C Tillson Aelod Annibynnol	**15-20**	**0**	**0**	**0**	15-20	0	0	0
Mrs M W Jones Aelod Annibynnol **(O 1 Rhagfyr 2011)**	**5-10**	**0**	**0**	**0**	0	0	0	0
Mrs E M B Roberts Aelod Annibynnol **(O 1 Rhagfyr 2011)**	**5-10**	**0**	**0**	**0**	0	0	0	0

Enw a theitl	2011/12				2010/11			
	Cyflog (bandiau o £5,000) £000	Tâl arall (bandiau o £5,000) £000	Taliadau Bonws (bandiau o £5,000) £000	Buddion mewn nwyddau (Wedi'i dalgrynnu i'r £100 agosaf) £000	Cyflog (bandiau o £5,000) £000	Tâl arall (bandiau o £5,000) £000	Taliadau Bonws (bandiau o £5,000) £000	Buddion mewn nwyddau (Wedi'i dalgrynnu i'r £100 agosaf) £000
Mrs M Burrows Prif Weithredwr	**200-205**	**0**	**0**	**3.7**	200-205	0	0	5.6
Mr M Scriven Cyfarwyddwr Meddygol	**135-140**	**30-35**	**0**	**5.3**	120-125	50-55	0	5.8
Mrs J Galvani Cyfarwyddwr Nyrsio	**125-130**	**0**	**0**	**2.1**	125-130	0	0	4.2
Mr G Lang Cyfarwyddwr Gofal Cychwynnol, Cymuned a	**125-130**	**0**	**0**	**0**	125-130	0	0	2.3
Dr K Griffiths Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd	**100-105**	**0**	**0**	**0**	100-105	0	0	0
Mr A Jones Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd	**10-15**	**0**	**0**	**0**	0	0	0	0
Mrs H Simpson Cyfarwyddwr Cyllid	**135-140**	**0**	**0**	**5.8**	135-140	0	0	10.0
Mr J M Jones Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	**125-130**	**0**	**0**	**1.4**	125-130	0	0	0
Mr N Bradshaw Cyfarwyddwr Cynllunio:	**125-130**	**0**	**0**	**2.0**	125-130	0	0	4.2
Mr M Common Cyfarwyddwr Gwelliannau a Chefnogi Busnes (MC)	**110-115**	**0**	**0**	**4.3**	110-115	0	0	7.5
Mrs G Lewis-Parry Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfathrebu	**95-100**	**0**	**0**	**4.8**	95-100	0	0	4.6

(*1) Mae Ms Dean yn gweithio i'r Bwrdd Iechyd a hi ydy Cynrychiolydd Undeb Llafur y Bwrdd.

(*2) Mae'r "Tâl Arall" a gyfeirir ato ar gyfer Mr Scriven yn ymwneud â chyflog a gafodd am ddyletswyddau clinigol.

(*3) Rhwng 1 Chwefror 2012 a 31 Mawrth 2012,Mr Lang oedd y Prif Weithredwr Dros Dro.

(*4) Nid yw cyfanswm cyflog a nodir ar gyfer Mr Jones yn cynnwys costau a gafodd eu hariannu gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cwblhawyd trosglwyddiad ffurfiol cyflogaeth Mr Jones o Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 1 Gorffennaf 2011.

Cymhareb Tâl Teg Hutton

Mae gofyn i gyrff sy'n rhoi adroddiad ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn ei sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Band tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn y flwyddyn 2011/12 oedd £205,000-£210,000 (2010/11 £200,000- £205,000). Roedd hyn 7.81 gwaith (2010/11: 7,89) tâl canolrifol y gweithlu, sef £26,401 (2010/11: £26,376). Y cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf oedd yr un unigolyn yn 2010/11 ac yn 2011/12 ac ni dderbyniodd godiad cyflog yn 2011/12.

Mae cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r gymhareb wedi lleihau yn ystod 2011/12 gan na roddwyd codiadau cyflog yn ystod y flwyddyn ond i'r staff hynny oedd yn ennill cyflog a oedd yn cyfateb yn llawn amser i £21,000 neu lai, sydd wedi arwain at gynnydd yn y cyflog canolrifol.

Yn 2011/12 ni chafodd unrhyw weithiwr fwy o dâl na'r cyfarwyddwr ar y tâl uchaf. Yn 2010/11, cafodd dau weithiwr fwy o dâl na'r cyfarwyddwr ar y tâl uchaf; roedd tâl y ddau weithiwr hyn yn amrywio o £210,000 i £218,000. Roedd y ddau yn uwch glinigwyr, a derbyniodd y ddau ôl-daliad cyflog yn ymwneud â 2009/10 ym mis Gorffennaf 2010. Mae pecyn tâl blynyddol sylfaenol y ddau yn llai nag un y cyfarwyddwr ar y tâl uchaf.

Mae cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad, buddion mewn nwyddau yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr a gwerth cyfatebol trosglwyddo i arian pensiynau.

Enw a theitl	Gwir gynnydd mewn pensiwn yn 60 oed (bandiau o £2,500) £000	Gwir gynnydd mewn lwmp swm oed 60 (bandiau o £2,500) £000	Cyfanswm y pensiwn cronedig oed 60 ar 31 Mawrth 2012 (bandiau o (£5,000) £000	Lwmp swm oed 60 yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2012 (bandiau o £5,000) £000	Gwerth Cyfatebol Trosglwyddo i Arian ar 31 Mawrth 2012 £000	Gwerth Cyfatebol Trosglwyddo i Arian ar 31 Mawrth 2011 £000	Cynnydd go iawn mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod £000	Cyfraniad y cyflogwr i bensiwn cyfranddeiliaid £000
Mrs M Burrows Prif Weithredwr	2.5-5.0	10-12.5	40-45	125-130	883	750	109	0
Mr M Scriven Cyfarwyddwr Meddygol	(2.5-5.0)	(7.5-10.0)	60-65	190-195	1,222	1,150	36	0
Mrs J Galvani Cyfarwyddwr Nyrsio	0-2.5	0-2.5	50-55	150-155	922	817	80	0
Mr G Lang (*1) Cyfarwyddwr Gofal Cychwynnol, Cymuned a Gwasanaethau Iechyd Meddwl	0-2.5	0-2.5	40-45	120-125	669	559	93	0
Dr K Griffiths Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd	(0-2.5)	(0-2.5)	50-55	150-155	0	0	0	0
Mr A Jones (*2) Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd	0-2.5	0-2.5	35-40	110-115	616	517	83	0
Mrs H Simpson Cyfarwyddwr Cyllid	0-2.5	0-2.5	40-45	130-135	760	643	97	0
Mr J M Jones Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	0-2.5	0-2.5	45-50	135-140	844	744	77	0
Mr N Bradshaw Cyfarwyddwr Cynllunio:	0-2.5	2.5-5.0	25-30	85-90	580	513	51	0
Mr M Common Cyfarwyddwr Gwelliannau a Chefnogi Busnes	(0-2.5)	(0-2.5)	50-55	160-165	1,177	1,107	36	0
Mrs G Lewis-Parry Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfathrebu	0-2.5	0-2.5	25-30	80-85	491	426	51	0

(*1) Rhwng 1 Chwefror 2012 a 31 Mawrth 2012,Mr Lang oedd y Prif Weithredwr Dros Dro.

(*2) Ariannwyd cyflog Mr A Jones ar y cyd gan y Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol 2011/12. Mae'r ffigyrau a ddarparwyd gan Asiantaeth Pensiynau'r GIG a'u datguddio uchod yn ymwneud â Chyfanswm Tâl Pensiwn am yr holl gyfnod, waeth pa gorff iechyd sy'n talu.

Adroddiad yr Archwilwyr

Archwilydd Allanol statudol y Bwrdd Iechyd yw Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gwneir y gwaith archwilio allanol ar ei ran gan staff Swyddfa Archwilio Cymru (WAO).

Roedd y gwaith a gyflawnwyd gan WAO yn cynnwys archwilio'r Datganiadau Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2011 – 31 Mawrth 2012 yn ogystal â darparu barn ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau gwerth am arian.

Ffi'r archwiliad ar gyfer 2011/12 oedd £521,000 a oedd yn cynnwys elfen yn ymwneud ag archwilio gweithgareddau Cronfa Risg Cymru y Bwrdd Iechyd.

Datganiad y Cyfarwyddwyr ar ddatgeliadau archwilio

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwyr eu bod wedi cymryd pob cam y dylid ei gymryd, fel Cyfarwyddwyr, i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliad perthnasol ac i sicrhau bod Archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cyn belled â'u bod yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwiliad perthnasol nad yw Archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol ohoni.

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Datganiadau Ariannol Cryno

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol cryno sydd yn Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar dudalennau 40 i 43.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd

Y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Fy nghyfrifoldeb i yw rhoi fy marn ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno â'r datganiadau ariannol statudol, sylwadau rheoli aelodau'r Bwrdd, a'r adroddiad tâl. Rwyf hefyd yn darllen y wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol â'r crynodeb o ddatganiadau ariannol.

Sail y farn

Rwyf wedi gwneud fy ngwaith yn unol â Bwletin 2008/3 'Datganiad yr archwilydd ar y datganiadau ariannol cryno' a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig.

Barn

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol cryno'n gyson â datganiadau ariannol statudol, adroddiad aelodau'r Bwrdd, sylwadau rheoli ac adroddiad tâl Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012 yr wyf wedi rhoi barn ddiamod arnynt.

Nid wyf wedi ystyried effeithiau unrhyw ddigwyddiadau rhwng y dyddiad yr arwyddais f'adroddiad ar y datganiadau ariannol llawn, 12 Mehefin 2012 a dyddiad y datganiad hwn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
26 Medi 2012

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd